



Cynulliad National  
Cenedlaethol Assembly for  
Cymru Wales

## Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus



Prosiect Craffu 'Trefniadau Etholiadol yng Nghymru'

Rhagfyr 2006



Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)**

### **Gwasanaeth y Pwyllgorau**

Lara Date	Clerc y Pwyllgor
Catherine Lewis	Dirprwy Glerc y Pwyllgor
Sara Mansour	Swyddog Cymorth y Pwyllgor
Spencer McGarry	Swyddog Cymorth y Pwyllgor

I gael rhagor o gopiâu caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:

Gwasanaeth y Pwyllgorau  
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8505  
E-bost: [Local-Govn.comm@wales.gsi.gov.uk](mailto:Local-Govn.comm@wales.gsi.gov.uk)

**Clawr:**

Mae'r llun ar yr ochr chwith yn dangos Ann Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor, yn profi offer pleidleisio electronig yn ystod y Pwyllgor â Gwlad Belg. Ffotograff gan Michael German AC, Aelod o'r Pwyllgor.

ISBN: 0 7504 9050 0

<b>CYNNWYS</b>	<b>Tudalen</b>
Rhagair y Cadeirydd	2
Aelodau'r Pwyllgor	3
Crynodeb Gweithredol	4
Rhestr lawn o'r Argymhellion	5 - 7
RHAN 1: Rhagymadrodd a Chyd-destun	8-9
Llywodraethu a Deddfu ar Etholiadau yng Nghymru	10-12
Gweinyddu Etholiadau yng Nghymru	13-15
RHAN 2: Ystyried y materion	
2.1 Cofrestru Etholwyr	16-22
2.2 Y Profiad o Bleidleisio	23-34
2.3 Y Rhan y mae Pobl Ifanc yn ei Chymryd mewn Etholiadau	35-44
2.4 Cydnabod Amrywiaeth mewn Trefniadau Etholiadol	45-48
Atodiadau:	
A Rhestr o'r dystiolaeth a gymerwyd	49-50
B Adroddiad ar ymweliad â'r Iseldiroedd, Denmarc a Gwlad Belg	51-55
C Adroddiad ar ymweliad â Sweden	56-59
Ch Adroddiad gan Bwyllgor Rhanbarth y De-orllewin	60-73
E Craffu ar y Mesur Gweinyddu Etholiadau – dogfennau allweddol ac adroddiad	74-75



## Rhagair y Cadeirydd

Mae un cip ar y canfyddiadau diweddar o ymchwil y Comisiwn Etholiadol i agweddau meddwl y cyhoedd at etholiadau'r Cynulliad yn ddigon i ddangos pam y mae'r adroddiad hwn gan Bwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus y Cynulliad yn un mor amserol a phwysig. Wrth i bobl Cymru edrych ymlaen at etholiadau'r Cynulliad mis Mai nesaf, a'r cyfle a ddaw o gael mwy o bwerau deddfu, testun pryder yw gweld bod pobl ifanc yn ymddieithrio fwyfwy oddi wrth y broses etholiadol. Mae gwaith ymchwil y Comisiwn Etholiadol, "*Cymru – ar flaen y gad*", yn cadarnhau mai pobl iau yw'r rhai lleiaf tebygol o bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad neu, yn wir, mewn etholiadau lleol neu Gyffredinol. Yn etholiadau diwethaf y Cynulliad yn 2003, roedd tua 80 y cant o'r etholwyr cofrestredig rhwng 18 a 34 oed heb ddefnyddio eu pleidlais. Pan ymwelodd y Pwyllgor â Sweden a siarad ag arbenigwyr ar y canrannau sy'n pleidleisio ledled Ewrop, cafodd neges glir ganddynt: os na fydd pobl ifanc wedi pleidleisio erbyn eu trydydd etholiad, ni wnânt byth. Felly os yw pobl ifanc wedi ymddieithrio i'r fath raddau'n awr, pa obaith sydd i ddemocratiaeth yng Nghymru yn y dyfodol?

Yn y prosiect craffu hwn, edrychwyd ar drefniadau etholiadol yng Nghymru i geisio canfod y rhesymau pam nad yw pobl yn cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, a chynnig rhai atebion, os oedd modd. Er nad ydym yn honni ein bod wedi dod o hyd i unrhyw ateb syml, rydym wedi ymchwilio i rai ffactorau pwysig sy'n effeithio ar benderfyniad pobl i bleidleisio neu beidio, fel eu gallu i gael yr wybodaeth a dysgu'r sgiliau y mae eu hangen i gymryd rhan mewn cofrestru a phleidleisio, mynediad i fannau pleidleisio, y dulliau a ddefnyddir i fwrw ein pleidlais, a sut yr ydym yn targedu'r grwpiau hynny sy'n lleiaf tebygol o gymryd rhan mewn etholiadau.

Nid oedd pob un o'r canlyniadau i waith y Pwyllgor yn ddigysur. Cawsom fod llawer o bobl yn credu bod mynediad ar gyfer pobl anabl yn gwella, er bod gennym lawer o waith i'w wneud eto ar hynny. Daethom o hyd i rai enghreifftiau o ymarfer da o ran dysgu democratiaeth a gwleidyddiaeth mewn ysgolion, a chydabyddiaeth gyffredinol bod dysgu pobl ifanc am ddinasyddiaeth a datblygu eu 'llythrennedd gwleidyddol' yn agwedd bwysig ar addysg.

Ond gwnaethom hefyd gymharu'r profiadau mewn gwledydd eraill yn Ewrop a gweld enghreifftiau o lefelau uwch o lawer o ymgysylltu â gwleidyddiaeth. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen gwneud llawer mwy i sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn sylweddoli eu bod yn chwarae rhan hollbwysig yn y broses ddemocrataidd a'u bod yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen i gymryd rhan yn llawn. Rydym yn gobeithio y bydd ein hargymhellion yn hyrwyddo'r ddadl yn y maes pwysig hwn yn ein bywyd dinesig, ac yn sicrhau y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn chwarae eu rhan yn llawn wrth ddylanwadu ar fywyd y genedl drwy eu dewisiadau yn y blwch pleidleisiau.

Rwyf yn ddiolchgar i bawb a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor ac a roddodd gymorth i ni yn ein trafodion ar y pwnc pwysig hwn. Rydym wedi cyflwyno nifer o argymhellion, y rhan fwyaf ohonynt yn rhai sy'n gofyn ymateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym yn gobeithio y rhoddir ystyriaeth ofalus i'r argymhellion hynny ac yn edrych ymlaen at gael ymateb cyn etholiadau'r Cynulliad fis Mai nesaf.

**Ann Jones AC**

**Cadeirydd, Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**



## Aelodau

### Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus



Ann Jones AC  
Cadeirydd  
Llafur



Sue Essex AC  
Gweinidog  
Llafur



Mike German AC  
Democratiaid  
Rhyddfrydol Cymru




Dai Lloyd AC  
Plaid Cymru



David Melding AC  
Plaid Geidwadol Cymru



Catherine Thomas AC  
Llafur



Gwenda Thomas AC  
Llafur





## **Crynodeb Gweithredol**

Y cylch gorchwyl ar gyfer prosiect craffu'r Pwyllgor ar 'Trefniadau Etholiadol yng Nghymru' oedd: ystyried y materion sy'n gysylltiedig â'r trefniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol a'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru, yn benodol, cofrestru etholwyr, y ganran sy'n pleidleisio, cymryd rhan gan bobl ifanc a phleidleisio dwyieithog; ystyried amryw o fesurau a ddefnyddir mewn systemau gwleidyddol eraill i wella'r ganran sy'n pleidleisio, cofrestru a chyfranogiad gan bobl ifanc a'r graddau y gellid eu defnyddio mewn etholiadau yng Nghymru; ystyried a oes angen unrhyw fesurau ychwanegol i sicrhau bod trefniadau pleidleisio yng Nghymru'n gwbl gynhwysol.

Edrychodd y Pwyllgor ar y profiad o bleidleisio yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys cofrestru, mynediad i orsafoedd pleidleisio a dulliau pleidleisio. Ymchwiliodd i faterion sy'n ymwneud â chyd-raddoldeb a chynwysoldeb, gan gynnwys anabledd ac iaith.

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cyfanswm o 33 o argymhellion. Mae'r rhai ar y profiad o bleidleisio'n ymwneud â'r costau a'r capasiti ar gyfer darparu gwasanaethau etholiadol yng Nghymru; cydgysylltu gwaith i gymell etholwyr i gofrestru a phleidleisio, yn enwedig ymysg rhai grwpiau targed; defnyddio pwerau newydd y Cynulliad i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r system etholiadol; hybu'r dulliau pleidleisio presennol a rhoi prawf ar ddulliau newydd gan gynnwys, yn benodol, pleidleisio electronig a'r defnydd o leoliadau gwahanol ar gyfer pleidleisio; ystyried anghenion y rhai sydd ag anabledau dysgu a darparu gwasanaethau etholiadol mewn gwahanol ieithoedd.

Roedd maint y ganran sy'n pleidleisio, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, yn destun pryder neilltuol i Aelodau. Cymharodd y Pwyllgor y profiadau o bleidleisio yng Nghymru â'r rhai mewn gwledydd eraill yn Ewrop, gan gynnwys Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, Denmarc a Sweden.

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion ar y modd y mae pobl ifanc yng Nghymru'n cael eu haddysgu i ddatblygu llythrennedd gwleidyddol. Mae'n dymuno gweld addysg dinasyddiaeth yng Nghymru'n cael ei chyflwyno mewn modd cytbwys a chyd-drefnus sy'n rhoi pob ystyriaeth i'r angen i feithrin dealltwriaeth wleidyddol ymysg pobl ifanc, a'u dysgu am rolau, polisïau a safbwyntiau pleidiau gwleidyddol a hefyd am brosesau gwleidyddol.

## Rhestr lawn o'r argymhellion

Rhif	ARGYMHELLIAD
1	Rydym yn argymell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau gydgysylltu'r gwaith o gofrestru etholwyr ledled Cymru ac ymchwilio i gyfleoedd o ran rhesymoli costau a chapasiti staff.
2	Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ymchwilio i'r modd y bydd dull cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yng ngoleuni Adroddiad Beecham a'r agenda ar Ranbartholi Llywodraeth Leol, yn gallu cyfrannu at gamau i ddelio â materion sy'n ymwneud â chostau a chapasiti sy'n wynebu Swyddogion Cofrestru Etholiadol.
3	Rydym yn argymell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ystyried y goblygiadau hirdymor o ran capasiti ar gyfer cofrestru unigolion fel y nodwyd mewn tystiolaeth gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA).
4	Rydym yn argymell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau weithio gyda'r AEA a'r Comisiwn Etholiadol i gydgysylltu gwaith hyrwyddo ar sail genedlaethol a/neu ranbarthol i gofrestru etholwyr.
5	Rydym yn argymell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ymchwilio i'r profiadau a gafwyd o gynlluniau fel y prosiect Hawl i Bleidleisio ac asesu pa mor ddichonol yw rhoi rhaglen ar waith fesul cam ar gyfer grwpiau sydd wedi'u targedu ledled Cymru.
6	Rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad wneud pob defnydd o'r pwerau a geir yn Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i hyrwyddo cofrestru ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2007 – yn benodol y ffaith bod modd cofrestru hyd at 11 niwrnod cyn y diwrnod pleidleisio.
7	Rydym yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad sydd i'w sefydlu ar ôl etholiad y Cynulliad yn 2007 yn gwneud pob defnydd o'i bwerau dan baragraffau 5 a 6 o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i hyrwyddo cofrestru ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn y dyfodol.
8	Rydym yn argymell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau gymryd camau i fonitro agweddau meddwl y cyhoedd at ddiogelwch y system pleidleisio drwy'r post yng Nghymru.
9	Rydym yn argymell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau roi arweiniad drwy bennu safonau ar gyfer pecynnau pleidleisio drwy'r post sy'n syml ac yn hawdd eu defnyddio ac yn defnyddio iaith sy'n ddealladwy i'r rhan fwyaf o bobl.
10	Rydym yn argymell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ystyried canllawiau ar gyfer cynghori pobl ynghylch newid eu dull pleidleisio er mwyn sicrhau eu bod yn syml a bod cyhoeddusrwydd digonol ar eu cyfer.
11	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn annog Awdurdodau Lleol yng Nghymru i ymgeisio i Lywodraeth y DU i dreialu dulliau pleidleisio electronig.
12	Rydym yn argymell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau gymryd camau i sicrhau bod y canllawiau ar fynediad i orsafoedd pleidleisio'n gyson a bod rhwymedigaethau dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabled 1995 wedi'u hegluro yn yr holl ganllawiau.
13	Rydym yn argymell bod unrhyw ganllawiau ar gyfer staff gorsafoedd

	pleidleisio yn ymdrin ag anghenion etholwyr sydd ag anableddau dysgu.
14	Rydym yn argymhell bod y Grŵp Cynllunio Etholiadau yn comisiynu aseciad o anghenion hyfforddi ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio ledled Cymru ynghylch materion sy'n ymwneud â mynediad a'i fod yn pennu cyrff a mecanweithiau priodol i ddarparu hyfforddiant.
15	Rydym yn argymhell y dylid gosod targedau i awdurdodau lleol ar gyfer canran y gorsafoedd pleidleisio sy'n gwbl hygyrch i rai o bob gallu.
16	Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ystyried pa fecanwaith y gellid ei greu i sicrhau y cymerir camau ynghylch unrhyw broblemau a nodir mewn adroddiadau gan reolwyr gorsafoedd pleidleisio ac y rhoddir sylw iddynt fel mater o flaenoriaeth.
17	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn annog Awdurdodau Lleol yng Nghymru i ymgeisio i Lywodraeth y DU er mwyn cymryd rhan mewn unrhyw gynlluniau peilot sy'n ymwneud â defnyddio lleoliadau gwahanol ar gyfer pleidleisio.
18	Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ymchwilio i'r cyfle i resymoli costau a darparu gwasanaethau etholiadol mewn modd cydgysylltiedig yng Nghymru a fydd yn caniatáu i weinyddwyr etholiadol a swyddogion canlyniadau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd gan Ddeddf Gweinyddu Etholiadau 2006, mewn modd effeithiol.
19	Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ystyried dulliau rhanbarthol a chenedlaethol o hyrwyddo pleidleisio gan bobl ifanc.
20	Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ystyried rhoi cynlluniau ar waith sydd â'r amcan o hybu pleidleisio gan grwpiau o bobl ifanc sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac yn economaidd.
21	Rydym yn argymhell y dylid rhoi sylw penodol yn yr adolygiad cyfredol o'r cwricwlwm, gan gynnwys yr ymgynghoriad cyhoeddus, i'r angen i feithrin amgyffrediad o wleidyddiaeth ymysg pobl ifanc ac i'w dysgu am rolau, polisïau a safbwyntiau pleidiau gwleidyddol yn ogystal â phrosesau gwleidyddol.
22	Rydym yn argymhell bod canllawiau i ysgolion ar ddysgu 'llythrennedd gwleidyddol' yn cyfeirio'n benodol at ddysgu am bleidiau gwleidyddol a rôl pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd yn ogystal â chysyniadau gwleidyddol sylfaenol.
23	Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu canllawiau i uwch reolwyr ysgolion a llywodraethwyr er mwyn sicrhau cydnabyddiaeth i'r pwysigrwydd o hyrwyddo llythrennedd gwleidyddol ym mywyd yr ysgol mewn modd cytbwys ac amhleidiol ac i'w hannog i wahodd cyrff gwirfoddol a phreifat, a rhai'r gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol, i ysgolion i hwyluso dadleuon ymysg disgyblion.
24	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydgysylltu'r canllawiau y mae'n eu rhoi i ysgolion ar weithrediad cynghorau ysgolion ac ar weithgareddau dinasyddiaeth, i sicrhau bod y rhain yn cyfrannu'n briodol at feithrin amgyffrediad o wleidyddiaeth ymysg disgyblion a bod cysylltiadau priodol yn cael eu creu rhwng

	gweithgareddau'r cyngor ysgol a chynlluniau eraill sy'n ymwneud â dinasyddiaeth, fel gwahodd gwleidyddion i ysgolion.
25	Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei strwythurau mewnol i sicrhau dull strategol a chydgyssylltiedig o ddarparu addysg dinasyddiaeth, gan gwmpasu'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm, hyfforddiant athrawon a gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth.
26	Rydym yn argymhell y dylid canolbwyntio mewn canllawiau a hyfforddiant ar sicrhau bod yr un anogaeth yn cael ei rhoi i'r holl ddisgyblion, beth bynnag fo'u cefndir, i gymryd rhan mewn cynghorau ysgolion a chynlluniau dinasyddiaeth eraill ac y dylai Estyn fonitro cynrychiolaeth a chyfranogiad o safbwynt cydraddoldeb.
27	Rydym yn argymhell y dylid rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod yr holl ysgolion uwchradd yn rhoi Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) gan ddefnyddio athrawon y darparwyd hyfforddiant ac adnoddau arbennig iddynt.
28	Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad drwy hwyluso hyfforddiant i athrawon mewn ABCh, gan ddarparu pecynnau adnoddau ar gyfer hyfforddiant o'r fath a chymorth i athrawon sy'n darparu ABCh.
29	Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod yr enghreifftiau a geir o ymarfer da ym maes addysg dinasyddiaeth ac addysg wleidyddol yn cael eu lledaenu'n ddigonol i'r holl ysgolion a grwpiau ieuenctid yng Nghymru.
30	Rydym yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad a'r awdurdodau lleol yn datblygu cynlluniau sy'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc o wahanol gefndiroedd i gysgodi gwleidyddion etholedig yn y Cynulliad ac mewn Llywodraeth Leol, ac i gymryd rhan mewn dadleuon gyda gwleidyddion. Dylai cynlluniau o'r fath roi sylw i arferion da a geir yng Nghymru ac mewn mannau eraill.
31	Rydym yn argymhell y dylai fod yn ofynnol darparu cymorth a chyngor dwyieithog i bobl drwy'r prosesau cofrestru a phleidleisio yn yr holl ardaloedd etholiadol yng Nghymru. Os nad yw'n bosibl cael staff dwyieithog yn bresennol, dylai pobl allu cael cyngor personol yn eu dewis iaith, drwy rif rhadffon, er enghraifft.
32	Rydym yn argymhell y dylid darparu cyngor a chymorth i rai penodol mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg, drwy'r prosesau cofrestru a phleidleisio, mewn ardaloedd etholiadol yng Nghymru yn ôl yr angen.
33	Rydym yn argymhell y dylid gwneud ymdrech barhaus i beri i'r holl ddeunyddiau etholiadol yng Nghymru fod yn fwy dealladwy ac i roi pob sylw i anghenion pobl sydd ag anableddau dysgu, rhai sydd â llythrennedd cyfyngedig a rhai nad yw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

## **RHAN 1: Rhagymadrodd a chyd-destun**

1.1 Yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2005 cytunodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar gylch gorchwyl ar gyfer ei Brosiect Craffu ar Drefniadau Etholiadol yng Nghymru fel a ganlyn:

- Ystyried y materion sy'n gysylltiedig â'r trefniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol a'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru, yn benodol, cofrestru etholwyr, y ganran sy'n pleidleisio, cymryd rhan gan bobl ifanc a phleidleisio dwyieithog.
- Ystyried amryw o fesurau a ddefnyddir mewn systemau gwleidyddol eraill i wella'r ganran sy'n pleidleisio, cofrestru a chyfranogiad gan bobl ifanc a'r graddau y gellid eu defnyddio yn etholiadau llywodraeth leol a'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru.
- Ystyried a oes angen unrhyw fesurau ychwanegol i sicrhau bod trefniadau pleidleisio yng Nghymru'n gwbl gynhwysol.
- Gwneud argymhellion.

1.2 Yn ymgynghoriad y Pwyllgor gofynnwyd am farn pobl am y materion mwy cyffredinol sydd y tu allan i gwmpas pwerau'r Cynulliad yn ogystal â manylion am y camau y gall y Cynulliad eu cymryd.

1.3 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn sawl cyfarfod (gweler Atodiad A am restr lawn). Yn ogystal â hynny, cafodd Aelodau'r Pwyllgor dystiolaeth ar ymweliadau â'r Iseldiroedd, Denmarc a Gwlad Belg ym mis Medi 2005 a Sweden ym mis Ebrill 2006.

1.4 Yn ei gyfarfod ar 13 Hydref 2005 penderfynodd y Pwyllgor graffu ar y *Mesur Gweinyddu Etholiadau* gyda'r bwriad o sicrhau bod modd anfon barn y cyrff yng Nghymru yr oedd y Mesur yn effeithio arnynt yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Sefydlog a oedd yn delio â'r Mesur ar ei ffordd drwy'r Senedd. Tynnwyd sylw yn yr adroddiad dros dro at y materion a gododd o'r dystiolaeth a gyflwynwyd bryd hynny a'r casgliadau dros dro yr oedd y Pwyllgor wedi dod iddynt o ganlyniad i hynny.

1.5 Cyhoeddwyd yr adroddiad dros dro ar y prosiect ym mis Tachwedd 2005 ac fe'i hanfonwyd i Bwyllgor Sefydlog Tŷ'r Cyffredin a oedd yn delio â'r Mesur Gweinyddu Etholiadau ac at yr holl ASau o Gymru a'r Aelodau o Gymru yn Nhŷ'r Arglwyddi.

1.6 Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad manwl ar wahân hefyd ar ei waith craffu ar y *Mesur Gweinyddu Etholiadau*. Cyfarfu Aelodau'r Pwyllgor ag aelodau o Dŷ'r Arglwyddi i drafod y newidiadau yr oedd yn eu hargymhell yn Ionawr 2006. Ar 11 Ionawr 2006 llofnododd Aelodau'r Pwyllgor gynnig i alw ar Lywodraeth y DU i newid y Mesur fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad hwnnw. Roedd y cynnig dan Reol Sefydlog Rhif 33.9 yn cyfarwyddo'r Prif Weinidog i hysbysu Llywodraeth y DU am y newidiadau a oedd wedi'u cynnig a chafodd ei dderbyn yn unfrydol yn y Cyfarfod Llawn. Ceir cronoleg lawn o waith craffu'r

Pwyllgor ar y Mesur Gweinyddu Etholiadau a chyswllt â'i adroddiad yn Atodiad D.

1.7 Yn ystod y gwaith craffu gan y Pwyllgor ar y Mesur Gweinyddu Etholiadau, mynegwyd pryderon hefyd nad oedd digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i'r gost ychwanegol yng Nghymru am gyfieithu. Yn ei adroddiad, cynigiodd y Pwyllgor y dylai cyllid digonol fod ar gael i weithredu'r ddarpariaeth yn y Mesur a bod angen cydnabod yr angen am ddwyieithrwydd yng Nghymru. Rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Pwyllgor fod ei swyddogion wedi cynnal trafodaethau â'r Adran Materion Cyfansoddiadol, a nododd nad oedd cyllid pellach ar gael.

1.8 Yn ei gasgliad yn ei adroddiad dros dro ar y prosiect craffu, nododd y Pwyllgor fod angen newidiadau i sawl agwedd ar weithrediad ein system etholiadol, ond bod angen i'r newidiadau hynny gael eu trafod yn drwyadl a hynny o fewn amserlen a fyddai'n darparu ar gyfer cynigion a oedd wedi'u hystyried a'u llunio'n ofalus.

1.9 Mae'r adroddiad terfynol hwn yn ymhelaethu ar y casgliadau dros dro yn yr adroddiad hwnnw, gan ystyried canlyniadau'r ymgynghori a gafwyd ag awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a chyrrff eraill sydd â buddiant rhwng Mehefin a Medi 2006, a thystiolaeth bellach a gymerwyd yn hydref 2006.

## LLYWODRAETHU A DEDDFU AR ETHOLIADAU YNG NGHYMURU

1.10 Cynhelir pum set o etholiadau yng Nghymru, ar gyfer y sefydliadau canlynol:

- Senedd Ewrop
- Senedd y DU
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cynghorau sir a bwrdeistref sirol (Etholiadau Lleol)
- Cynghorau tref a chymuned (Etholiadau Lleol).

1.11 Nid un corff sy'n gyfrifol am etholiadau yng Nghymru ond nifer o wahanol gyrff a sefydliadau sydd â chyfrifoldebau amrywiol ar lefelau gwahanol o Lywodraeth.

### Llywodraeth Ganolog

1.12 Mae'r Adran Materion Cyfansoddiadol (DCA) yn gyfrifol am y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Senedd Ewrop. Mae hefyd yn cydgysylltu polisi ar faterion etholiadol sy'n ymwneud â'r DU gyfan. Mae ganddi gyfrifoldeb dros rannau allweddol o ddeddfwriaeth etholiadol y DU fel *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983* (DCB 1983)<sup>1</sup>; *Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000* (DPGER 2000) a *Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006* a wnaed yn ddiweddar.

1.13 *Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000* (DPGER) a sefydlodd y Comisiwn Etholiadol gan roi dyletswydd iddo, ymysg pethau eraill, i adrodd ar etholiadau i Senedd Ewrop a Senedd y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Yn ogystal â hynny, cafodd y gwaith o ddal gweithdrefnau etholiadol dan sylw ac o roi cyngor ar faterion etholiadol. Mae ganddo ddyletswydd bellach i ddarparu addysg am systemau etholiadol a democrataidd.

1.14 Mae Swyddfa'r Comisiwn Etholiadol yng Nghymru yn gyfrifol am gyflawni nodau corfforaethol y Comisiwn yng nghyd-destun Cymru.<sup>2</sup> Mae'n cynhyrchu Adroddiad statudol ar y modd y cynhaliwyd Etholiadau'r Cynulliad ac Etholiadau Cyffredinol yng Nghymru. Yn 2004 cynhyrchodd adroddiad hefyd ar yr Etholiadau Lleol ar gais y Cynulliad Cenedlaethol.

### Etholiadau Lleol

1.15 Mae gan yr Adran Materion Cyfansoddiadol gyfrifoldeb hefyd dros y dull o gynnal etholiadau cyngor, ar lefel y siroedd ac ar lefel y trefi a'r cymunedau yng Nghymru. Er hynny, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru rai pwerau cyfyngedig dros etholiadau lleol. Mae *Deddf Llywodraeth Leol 2000* yn rhoi

<sup>1</sup> Cafodd *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1918* (DCB 1918) ei chydgrynhoi yn DCB 1948, a gydgrynhowyd eto yn DCB 1983. Ni chafwyd unrhyw gydgrynhoi ers hynny, er bod DCBau wedi'u gwneud yn 1985, 1989 a 2000 ynghyd â sawl eitem ddeddfwriaeth arall i newid cyfraith etholiadol. Gwnaed cyfres o reoliadau o dan DCB 1983 sy'n gosod rheolau etholiad manwl ar gyfer y gwahanol fathau o etholiad.

<sup>2</sup> Y Comisiwn Etholiadol, Cyflwyniad i'r Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar waith y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru, Mehefin 2006.

pŵer i'r Cynulliad i amrywio'r cynllun presennol ar gyfer etholiadau i gynghorau sir. Mae hynny'n golygu y gallai'r Cynulliad benderfynu na fyddai cynghorwyr sir yng Nghymru i gyd yn cael eu hethol ar yr un diwrnod bellach ac y byddent, yn lle hynny, yn cael eu hethol yn haneri, bob dwy flynedd, neu'n draeanau, drwy ethol eu hanner mewn tair blwyddyn ym mhob pedair. Ym mhob achos, byddai tymor y swydd yn dal i fod yn bedair blynedd o hyd.

1.16 Roedd *Deddf Llywodraeth Leol 2000* yn galluogi'r Cynulliad hefyd i newid y flwyddyn pan gynhelir etholiadau lleol (ar lefel y siroedd a'r cymunedau). Defnyddiwyd y pŵer hwn i ohirio etholiadau cyngor a oedd i fod i gael eu cynnal ym mis Mai 2003, tan fis Mai 2004, er mwyn sicrhau na fyddai'r cylch etholiadau lleol yng Nghymru'n cyd-ddigwydd am byth â rhai'r Cynulliad.<sup>3</sup>

### **Etholiadau'r Cynulliad**

1.17 Cynhaliwyd etholiadau i'r Cynulliad yn 1999 a 2003 yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 1998* ac roeddent yn gyfrifoldeb yn bennaf i Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Roedd *Deddf 1998* yn nodi pa bryd y dylid cynnal etholiadau a sut y mae Aelodau i gael eu hethol. Roedd hefyd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud gorchymyn yn llywodraethu manylion y dull o gynnal yr etholiadau. Fersiwn gyfredol y gorchymyn hwn yw *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2003*.

1.18 Mae'r Gorchymyn yn ymdrin â manylion gweithdrefnau etholiad y Cynulliad, gan gynnwys y dull pleidleisio, trefniadaeth gorsafoedd pleidleisio, dyletswyddau swyddogion canlyniadau, trefniadaeth ymgyrchoedd etholiad ac achosion cyfreithiol os ceir her i'r canlyniad.

1.19 Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* wedi cymryd lle *Deddf 1998* ac wedi cyflwyno rhai newidiadau i'r dull o gynnal etholiadau. Mae'n darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud Gorchymynion yn caniatáu cynnal Etholiadau Cyffredinol Eithriadol. Mae Atodlen 2 i'r *Ddeddf* yn darparu hefyd y bydd Comisiwn y Cynulliad a ffurfir ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym Mai 2007 yn cael hybu ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r system etholiadol a llywodraeth ddatganoledig, un ai'n uniongyrchol neu drwy roi cymorth ariannol i'r Comisiwn Etholiadol. Mae'r trefniadau trosiannol sydd wedi'u nodi yn Atodlen 11 i'r *Ddeddf* yn golygu y gall y Cynulliad presennol arfer y pwerau hynny. Gwneir Gorchymyn newydd o dan adran 13 o'r *Ddeddf*, yn dirymu ac yn cymryd lle *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2003*.

1.20 Bu Grŵp Cynllunio Etholiadau Cymru gyfan ar waith ers mis Medi 2005. Fe'i sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn darparu trosolwg strategol ar faterion etholiadol yng Nghymru. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, y Comisiwn Etholiadol, Swyddfa Cymru, Adran Materion Cyfansoddiadol y DU, cynrychiolydd Swyddogion Canlyniadau, swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a swyddogion y pedair prif blaid wleidyddol yng Nghymru. Mae'n cwrdd yn chwarterol.

---

<sup>3</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, *Electoral Arrangements in Wales*, LGPS 04-05 (t.4), 20 Ebrill 2005.



## **Ariannu**

1.21 Mae'r Adran Materion Cyfansoddiadol yn gyfrifol am ariannu etholiadau i Senedd y DU a Senedd Ewrop. Mae pwerau wedi'u dirprwyo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â thalu costau Swyddogion Canlyniadau am gynnal etholiadau'r Cynulliad a'r cynllun adennill costau, a nodir yng *Ngorchymyn Swyddogion Canlyniadau (Ffioedd a Thaliadau)*. Mae'r Cynulliad yn gyfrifol hefyd am y setliad cyllid llywodraeth leol yng Nghymru, sy'n cynnwys cyllid ar gyfer gwasanaethau etholiadol.

## **GWEINYDDU ETHOLIADAU YNG NGHYMRU**

### **Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau**

1.22 Mae adran 8 o DCB 1983 yn mynnu bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cael eu penodi er mwyn cofrestru etholwyr. Mae'r Ddeddf yn nodi ymhellach:

In Wales, the council of every county or county borough shall appoint an officer of the council to be registration officer for any constituency or part of a constituency coterminous with or situated in the area of the council.

1.23 Eglurwyd sut y daeth y "swyddog canlyniadau" i fod gan Roger Morris a David Monks yn eu llawlyfr *Running Elections 2005*:

Through statutes and Parliamentary and constitutional procedures, the Crown dissolves and summons Parliaments. A writ – the term still survives here despite its abolition in everyday legal use – is issued as an instruction to officials acting locally to "return" (hence "returning officer") the writ with the names (sic) of the elected candidate on it.<sup>4</sup>

1.24 Penodir swyddogion canlyniadau ar wahân ar gyfer gwahanol etholiadau. Yn achos etholiadau Seneddol, penodir y swyddog canlyniadau gan yr awdurdod lleol a ragnodwyd ar gyfer y cyfan neu ran sylweddol o bob etholaeth sy'n gysylltiedig. Mae'n rôl seremonïol a gyflawnir gan Gadeirydd yr awdurdod lleol. Cyflawnir y dyletswyddau hanfodol ar gyfer gweinyddu etholiadau gan y swyddogion canlyniadau gweithredol (h.y. y swyddogion cofrestru etholiadol).<sup>5</sup>

1.25 Bydd *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2006* yn rhagnodi swyddogion canlyniadau ar gyfer etholaethau a rhanbarthau'r Cynulliad ar gyfer etholiadau 2007.

1.26 Mae'r cyngor yn penodi swyddogion canlyniadau ar gyfer etholiadau lleol hefyd.

1.27 Yn achos etholiadau Ewropeaidd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Cyfansoddiadol yn rhagnodi swyddog canlyniadau gweithredol dros etholaeth Seneddol i fod yn swyddog canlyniadau ar gyfer rhanbarth mewn etholiad Ewropeaidd.<sup>6</sup>

### **Cofrestru Etholwyr**

1.28 Ystyr 'cofrestru etholiadol' yw casglu a chadw'r gofrestr etholwyr. Mae'n ofynnol i swyddogion cofrestru etholiadol baratoi a chyhoeddi cofrestr etholwyr

<sup>4</sup> R Morris a D Monks, *Running Elections 2005*, SOLACE Enterprises, 2005. t.11.

<sup>5</sup> Swyddogion Canlyniadau Gweithredol yw'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol fel y maent wedi'u penodi dan *Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983* a.8. Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol yw'r rhain fel arfer.

<sup>6</sup> *Gorchymyn Etholiadau Senedd Ewrop (Swyddogion Canlyniadau) 2004* OS Rhif 1056

ar gyfer eu hardal bob blwyddyn a'i chadw drwy'r flwyddyn. Maent dan ddyletsydd statudol i gynnwys enwau pawb sy'n gymwys yn eu golwg hwy, gan gymryd camau rhesymol i gael yr wybodaeth sy'n ofynnol. Anfonir ffurflen ganfasio i bob aelwyd yn y DU bob hydref i'w chwblhau a'i dychwelyd gan y deiliad tŷ. Mae'r ffurflen yn gofyn am fanylion pawb sy'n gymwys i bleidleisio (neu'n gymwys i bleidleisio yn y dyfodol agos) sy'n preswyllo yn y tŷ ar 15 Hydref. Ers cyflwyno cofrestr dreigl yn Chwefror 2001 mae modd i unigolyn newid ei fanylion cofrestru'n wirfoddol.

1.29 Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gyhoeddi dwy fersiwn o'r Gofrestr Etholwyr. Mae'r fersiwn 'lawn' yn rhestru pawb sydd â hawl i bleidleisio. Mae cyfyngiadau cyfreithiol ar yr hawl i weld y fersiwn hon a dim ond pobl neu gyrff penodol a gaiff ei gweld, ac nid ydynt ond yn cael ei defnyddio i ddibenion penodol. Mae fersiwn 'olygedig' y Gofrestr yn hepgor enwau a chyfeiriadau'r etholwyr hynny sydd wedi gofyn am gael eu gadael allan o'r fersiwn honno. Caiff unrhyw un brynu'r fersiwn olygedig a gellir ei defnyddio i unrhyw ddiben.

1.30 Er nad yw cofrestru fel y cyfryw yn orfodol, mae pŵer gan Swyddog Cofrestru Etholiadol i fynnu cael gwybodaeth ar gyfer cadw'r gofrestr etholwyr. Gosodwyd cosb am fethu â chwblhau a dychwelyd y ffurflen gofrestru etholiadol neu am roi gwybodaeth ffug am y tro cyntaf yn 1918 a'i hystemyn i gynnwys cofrestru treigl yn 2006. Y gosb gyfredol am y trosedd hwn yw dirwy nad yw'n fwy na £1,000. Anaml iawn y ceir erlyn.

1.31 Ar ôl casglu'r gofrestr, mae modd i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol anfon cardiau pleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio yn ogystal â darparu rhestrau o bleidleiswyr cymwys i orsafoedd pleidleisio.

## **Yr Etholiad**

1.32 Cyn y diwrnod pleidleisio, mae gan y swyddog canlyniadau amryw o ddyletsyddau i'w cyflawni, a'r rheini'n cynnwys pennu a sicrhau lleoliadau addas i orsafoedd pleidleisio a delio â'r broses o gyflwyno papurau enwebu fel bod y rhai a gyflwynir yn cydymffurfio â'r rheolau fel y gellir eu hystyried yn ddilys.

1.33 Caiff y swyddog canlyniadau benodi dirprwyon a bydd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Uned Gwasanaethau Etholiadol sydd â nifer bach o staff parhaol, ond bydd angen i'r swyddog canlyniadau benodi staff ychwanegol ar gyfer yr etholiad. Bydd y rhain yn cynnwys swyddogion llywyddu a chlercod pleidleisio ar gyfer pob gorsaf pleidleisio a staff i gyfrif y pleidleisiau ar y diwrnod pleidleisio.

1.34 Ar ôl yr etholiad bydd y swyddog canlyniadau'n cael ffurflenni treuliau etholiad yr ymgeiswyr.

## **Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006**

1.35 Mae'r *Ddeddf Gweinyddu Etholiadau 2006* newydd wedi cyflwyno nifer o newidiadau mewn cysylltiad â mynediad i gofrestru, pleidleisio drwy'r post, a phleidleisio ar y diwrnod pleidleisio, a hynny'n cynnwys cyflwyno fframwaith ar

gyfer y Cofnod Cyd-drefnus Ar-lein o Etholwyr (CORE), ac mae wedi darparu ar gyfer newidiadau i'r dull o weinyddu etholiadau. Mae hefyd wedi cyflwyno mesurau i wella diogelwch a thryloywder ac wedi cyflwyno cyfundrefn newydd ar gyfer rheoleiddio benthyciadau i bleidiau gwleidyddol. Mae'r Ddeddf yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban, er bod is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf yn cael ei gwneud ar wahân ar gyfer yr Alban.

### **Gweinyddu Etholiadau mewn gwledydd eraill**

1.36 Mae'r gwahaniaethau a welir mewn trefniadau gweinyddu etholiadol mewn gwahanol wledydd yn ymwneud fel arfer â phresenoldeb Corff Rheoli Etholiadol sy'n annibynnol ar y Llywodraeth; a yw'r staff yn barhaol ac yn broffesiynol ac a geir gwahanol gydbwysedd rhwng rolau lleol a chanolog wrth weinyddu etholiadau.<sup>7</sup>

1.37 Cyfarfu'r Pwyllgor â swyddogion a oedd yn ymwneud â gweinyddu etholiadau yn Nenmarc, yr Iseldiroedd a Gwlad Belg. Mae pob un o'r gwledydd hyn yn ddemocratiaeth seneddol sy'n defnyddio math o gynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer etholiadau.

1.38 Yn yr Iseldiroedd, ymwelodd y Pwyllgor â'r Cyngor Etholiadol Canolog (*y Kiesraad*) a chael cyflwyniadau ganddo. Y corff hwn yw'r pwyllgor etholiadol canolog ar gyfer etholiadau i Senedd yr Iseldiroedd a Senedd Ewrop (ceir pwyllgorau taleithiol a lleol ar gyfer yr etholiadau hynny). Yr awdurdodau bwrdeistrefol (yn hytrach na'r Cyngor Etholiadol) sy'n gyfrifol am drefnu'r holl etholiadau yn eu bwrdeistref. Gan weithredu fel gorsaf bleidleisio ganolog, bydd y Cyngor Etholiadol yn anfon yr adroddiad swyddogol o'r canlyniadau i Siambr y Senedd y cynhelir yr etholiadau ar ei chyfer.

1.39 Yn Nenmarc ac yng Ngwlad Belg mae'r Uned Etholiadau wedi'i lleoli yn y Weinyddiaeth Gartref. Yn Nenmarc mae'r Uned Etholiadau'n gyfrifol am gynnal etholiadau a refferenda cenedlaethol. Yng Ngwlad Belg mae'n rhoi canllawiau a chymorth gwleidyddol a threfnir yr etholiadau'n lleol.

---

<sup>7</sup> ACE (Administration & Costs of Elections Project), Electoral Knowledge Network.

## RHAN 2: YSTYRIED Y MATERION

### 2.1 COFRESTRU ETHOLWYR

2.1.1 Fel y nodwyd yn Rhan 1, roedd cyfnod y prosiect craffu wedi gorgyffwrdd â hynt *Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006* drwy'r Senedd a chymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar y cynigion yn y Ddeddf a llunio adroddiad ar hynny. Rhan o amcan y Ddeddf oedd gwella'r gofrestr o ran ei chywirdeb a delio â'r posibilrwydd o dwyll wrth gofrestru ac mae'n cynnwys rhai darpariaethau allweddol sy'n ymwneud â chofrestru etholwyr:

- Creu Cofnod Cyd-drefnus Ar-lein o Etholwyr (CORE) a fydd yn cyfuno neu'n cysylltu'r rhestrau etholwyr a reolir gan holl awdurdodau lleol y DU
- Dangosyddion Perfformiad ar gyfer swyddogion cofrestru etholiadol
- Rhoi dyletswydd newydd ar swyddogion cofrestru etholiadol i gymryd camau angenrheidiol i gadw'r gofrestr
- Trosedd cofrestru newydd sef cyflenwi gwybodaeth ffug mewn cysylltiad â chofrestriad
- Dyddiad hwyrach ar gyfer cofrestru – caniatáu i bobl gofrestru hyd at 11 niwrnod cyn diwedd pleidleisio ac yn ystod ymgyrchoedd
- Rhoi pŵer i swyddogion cofrestru etholiadol i hybu cyfranogiad

2.1.2 Daeth y ddwy ddarpariaeth olaf i rym ar 11 Medi 2006 mewn pryd ar gyfer Canfas Blyneddol 2006.

2.1.3 Nid oedd Llywodraeth y DU wedi cynnwys cofrestru unigolion yn *Neddf Gweinyddu Etholiadau 2006*, er bod cyrff allweddol fel y Comisiwn Etholiadol<sup>8</sup> a Phwyllgorau Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Faterion Cyfansoddiadol a Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog<sup>9</sup> o'i blaid, a gosodwyd nifer o welliannau yn ystod ei hynt drwy'r Senedd. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor swm sylweddol o dystiolaeth am y pwnc hwn.

#### Cadw'r Gofrestr

2.1.4 Os nad ydych wedi'ch cofrestru, nid oes gennych hawl i bleidleisio mewn etholiadau. Fel y nodwyd mewn erthygl ddiweddar gan y Comisiwn Etholiadol:

“Electoral registration is the gateway to voting: people cannot vote at elections in the UK if their name is not on the register. It is the key building block for the administration of elections and will continue to be so. Furthermore, turnout figures at UK elections – increasingly an important barometer of the health of our democracy – are derived from registered electorate figures and with significant under-registration these might be, in effect, overplaying participation.”<sup>10</sup>

<sup>8</sup> Y Comisiwn Etholiadol, *Understanding Electoral Registration*, Medi 2005.

<sup>9</sup> Materion Cyfansoddiadol a Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog: Housing, Planning, Local Government and the Regions Committees, House of Commons, First Joint report of Session 2004–5 (2005) *Electoral registration*, Llyfrfa Ei Mawrhydi, Llundain.

<sup>10</sup> B Marshall a D Stewart (Y Comisiwn Etholiadol), “Electoral Administration – Time for a change”, *Political Quarterly*, 76 (4), Hydref-Rhagfyr 2005.

2.1.5 Gellir gosod dirwy ar bobl sy'n methu â chwblhau eu ffurflen cofrestru etholwyr ond ychydig iawn o erlyniadau a geir yn ymarferol.<sup>11</sup> Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Prif Swyddog Canlyniadau Cymru, Bryn Parry-Jones am y system cofrestru etholwyr mai honno oedd "the keystone for running a good election" a'i fod ef a'i gydweithwyr yn treulio llawer o amser yn ceisio sicrhau bod y gofrestr etholiadol yn gystal ag y bo modd ("seeking to ensure that we have as good an electoral register as possible").<sup>12</sup>

2.1.6 Er hynny, roedd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA) yn amheus ynghylch y gwerth a oedd mewn neilltuo adnoddau i gofrestru pobl sy'n annhebygol o ddefnyddio eu pleidlais.

"There are currently a considerable number of individuals who have no interest in the electoral process, and never want to vote. The resources expended in persuading these individuals to register are out of all proportion to the benefits of including in the register for a service they have no desire to use."<sup>13</sup>

2.1.7 Dadl Roger Morris, cyn-Swyddog Canlyniadau oedd: "prosecution (or any other penalty) will probably be counter-productive, as someone fined is unlikely to be a regular or willing voter". Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor yn teimlo bod addysg a chyhoeddusrwydd yn llawer mwy gwerthfawr o ran hyrwyddo cofrestru nag erlyn.<sup>14</sup>

2.1.8 Nododd y Comisiwn Etholiadol y dylid erlyn os ceir twyll bwriadol. Fodd bynnag, ceir rhai bob amser a fydd yn methu â chyflenwi gwybodaeth neu'n gwneud hynny'n anghywir a'r rhain, yn aml, fydd y rhai sy'n fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Felly, ni fyddai'n briodol eu herlyn.

2.1.9 Tynnodd yr AEA sylw hefyd at broblemau o ran capasiti sy'n codi wrth gadw'r Gofrestr:

"Electoral registration is with each individual authority at the moment. We put an awful lot of effort into it, but, as someone said this morning, we are still seen as cinderella groups within council authorities. Most electoral services departments consist merely of two or three staff."<sup>15</sup>

2.1.10 Ategwyd y farn hon gan Kay Jenkins o'r Comisiwn Etholiadol a gyfeiriodd at waith arolwg a wnaed gan y Comisiwn:

"It is an issue not only of the number of bodies that you have to do the job, but of the structure within local authorities for supporting electoral services. It is often one person operating on their own, who has some additional staff around election time. Then there is a gap between that and the returning officer, who is a busy chief executive, and who only comes in at election time. A management structure, which would bring a professional approach to delivering electoral services, is often lacking."<sup>16</sup>

<sup>11</sup> Tŷ'r Cyffredin, Nodyn Ymchwil SN/PC/00954, *Compulsory Voting*, 2003

<sup>12</sup> Bryn Parry-Jones, Prif Swyddog Canlyniadau Cymru, Tystiolaeth Lafar i'r Pwyllgor, 11 Mai 2005..

<sup>13</sup> AEA, Tystiolaeth Ysgrifenedig ar Gofrestru Etholwyr, LGPS 04-05(p5b)

<sup>14</sup> Dadansoddiad o'r Ymatebion

<sup>15</sup> Bob Screen, AEA, Tystiolaeth Lafar i'r Pwyllgor, 21 Medi 2006.

<sup>16</sup> Kay Jenkins, y Comisiwn Etholiadol, Tystiolaeth Lafar i'r Pwyllgor, 17 Tachwedd 2005.

2.1.11 Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig cadw cofrestrau etholwyr fel eu bod mor gyfoes a chywir ag y bo modd er mwyn sicrhau bod pawb sydd â hawl i bleidleisio'n cael gwneud hynny. Ar y llaw arall, mae'r Pwyllgor wedi nodi'r pwyntiau a wnaeth yr AEA ynghylch defnyddio adnoddau'n gymesur a'r cyfyngiadau ar gapasiti adrannau Gwasanaethau Etholiadol yr Awdurdodau Lleol. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth fanwl ar hyn hefyd gan yr AEA, CLILC a'r Comisiwn Etholiadol wrth gymryd dystiolaeth ar gyfer ei waith o graffu ar y *Mesur Gweinyddu Etholiadol*.

### **Cofrestru deiliaid tai ynteu unigolion**

2.1.12 Yn hanesyddol, mae etholwyr yn y Deyrnas Unedig wedi'u cofrestru ar sail aelwydydd. O dan y system hon, mae'n ofynnol bod un person ar bob aelwyd, a alwyd yn draddodiadol yn "Benteulu" ond a elwir yn swyddogol bellach yn "ddeiliad", yn cwblhau ffurflen flynyddol, gan restru pawb yn y cyfeiriad hwnnw sy'n gymwys, neu a fydd yn gymwys cyn hir, i bleidleisio ar 15 Hydref yn y flwyddyn honno (y "Canfas Blynyddol"). Ers cyflwyno cofrestru "treigl" yn 2001, mae etholwyr sy'n preswyllo yng Nghymru, Lloegr a'r Alban wedi cael cyfle i ychwanegu eu henwau eu hunain fel unigolion at y gofrestr ar adegau eraill. Ers 2002 bu Gogledd Iwerddon yn gweithredu system sengl ar gyfer cofrestru unigolion. Y sail resymegol i'r newid yn y fan honno oedd y bwriad i wella diogelwch ac ymladd yn erbyn twyll.

2.1.13 Clywodd y Pwyllgor wahanol safbwyntiau am y posibilrwydd o droi oddi wrth gofrestru deiliaid tai at gofrestru unigolion. Nododd Roger Morris sut yr oedd canfyddiadau'r cyhoedd yn amlygu'r angen i newid y dulliau cofrestru:

"The old system [*of household registration*] was tried and tested; it worked well for a long time and was well understood, but it was paper based and had limitations in terms of the trustworthiness of the head of the household responding appropriately and so forth."<sup>17</sup>

2.1.14 Byddai troi oddi wrth gofrestru deiliaid tai at gofrestru unigolion yn debygol o gynyddu cost y canfas, yn enwedig os nad ystyrir bod cosb am fethu â chydymffurfio â'r cais am wybodaeth yn feganwaith sylweddol ac effeithiol i gymell unigolion i gymryd rhan. Gallai hynny arwain hefyd at gael cofrestr lai cywir os bydd y ganran sy'n dychwelyd ffurflenni'n isel. Hefyd, mae cofrestru ar sail aelwydydd yn cynnig modd i gofrestru unigolion sydd dan anfantais mewn cysylltiad â llythrennedd neu faterion eraill.

2.1.15 Os troir at gofrestru unigolion, byddai hynny'n galw am benderfyniad am y sail ar gyfer cofrestru unigolion. Er enghraifft, a ddylai fod yn seiliedig ar gyfeiriad neu ar ddulliau adnabod personol fel rhif Yswiriant Gwladol neu ddyddiad geni? Mewn dystiolaeth a gyflwynwyd i ymchwiliad Pwyllgorau'r T^y Cyffredin, dadleuodd SOLACE fod defnyddio rhifau Yswiriant Gwladol yn ateb deniadol gan fod rhif Yswiriant Gwladol gan y rhan fwyaf o bobl a bod system sy'n seiliedig ar gyfeiriadau'n peri problemau mewn cymdeithas lle ceir llawer o symud o

<sup>17</sup> Roger Morris, Tystiolaeth Iafar i'r Pwyllgor, 20 Ebrill 2005.

gwmpas. Er hynny, dywedodd The Pollen Shop a Scope Cymru wrth y Pwyllgor y byddai gofyniad i roi rhif Yswiriant Gwladol yn rhwystr i lawer o bobl.<sup>18</sup>

2.1.16 Roedd yr AEA o'r farn bod "*the bandwagon towards individual registration is almost inevitable*" ac y byddai hynny'n ateb i lawer o'r pryderon ynghylch twyll. Er hynny, mynegwyd pryder ganddynt ynghylch gallu Awdurdodau Lleol i'w ddarparu ar hyn o bryd ac ynghylch yr angen am fwy o gyllid i'w roi ar waith yn effeithiol. Rhoddwyd crynodeb o'r her i weinyddwyr:

"The concern that we have as administrators is around the practicalities of moving to a system whereby one has to issue forms to possibly every individual and to chase every individual. We could end up back in a poll-tax scenario. Many of us, as practitioners, would favour individual registration, but it remaining on the single household form, so that on that form everybody is required to sign, and provide their identifier and so on. For us as practitioners, households are far easier to chase up than individuals."<sup>19</sup>

2.1.17 Pwysleisiodd Scope Cymru a The Pollen Shop fod perygl o fethu â chysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd os cyflwynir cofrestru i unigolion.

"Overall registration of a number of groups will be reduced if individual registration is introduced without care. These include young people, especially those living in houses of multiple occupation, people with low literacy, people who do not speak English as a first language, older people and people with learning difficulties. These groups will have to be directly targeted with specific voter registration campaigns. The National Assembly could take a lead in starting this process now."

2.1.18 Pan ofynnwyd am eu barn am gofrestru unigolion a diogelwch, dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad eu bod yn gwrthwynebu cofrestru unigolion ar y sail y byddai'n gostwng y ganran sy'n pleidleisio ac yn peri dryswch i etholwyr. Er hynny, roedd llawer yn cydnabod y gallai wella diogelwch. Roedd hyn yn adlewyrchu safbwyntiau a fynegwyd yn y Senedd yn ystod hynt *Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006*. Ailddatganodd y Comisiwn Etholiadol ei gefnogaeth i gofrestru unigolion ac fe'i cefnogwyd yn ei gyflwyniad gan CEWC Cymru. Nodwyd bod y nifer a oedd yn cofrestru wedi gostwng pan gyflwynwyd cofrestru ar gyfer unigolion yng Ngogledd Iwerddon, ond bod y gofrestr yn fwy cywir a bod y nifer sy'n cofrestru wedi cynyddu eto.

2.1.19 Er nad oedd Llywodraeth y DU wedi derbyn hynny yn achos y Ddeddf ddiweddar, ceir cefnogaeth eang i'r alwad am ei gyflwyno ymysg rhanddeiliaid allweddol ac mae'n bosibl y bydd Llywodraeth y DU yn ailystyried ei safbwynt yn y dyfodol.

2.1.20 Mae'r Pwyllgor o'r farn mai cofrestru unigolion yw'r ffordd ymlaen ac mae'n gobeithio y bydd y dystiolaeth a gasglodd o gymorth i ddylanwadu ar symudiadau i'r cyfeiriad hwnnw.

---

<sup>18</sup> Pollen Shop a Scope, Tystiolaeth Lafar i'r Pwyllgor, 8 Mehefin 2005

<sup>19</sup> AEA, Tystiolaeth Lafar i'r Pwyllgor, 21 Medi 2005.



## **Cymariaethau Rhyngwladol**

2.1.21 Un o'r prif wahaniaethau rhwng y DU a'r gwledydd yr ymwelwyd â hwy yw'r dull o gofrestru etholwyr. Ym mhob un o'r tair gwlad yr ymwelwyd â hwy, mae'r dull o gofrestru etholwyr yn gysylltiedig â'r gofrestrfa sifil neu gofrestrfa dinasyddion genedlaethol. Gwelodd y Pwyllgor enghreifftiau o gofrestru awtomatig ar gyfer yr holl etholwyr wrth iddynt gyrraedd oed pleidleisio. Gwnaed hynny drwy ddull gwahanol ym mhob gwlad, ond roedd pob un yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael yn rhwydd yn y wlad hon (fel y dyddiad geni, cyfeiriad, rhif unigryw a roddwyd ar adeg geni i ddibenion nawdd cymdeithasol). Mater i ddinasyddion unigol wedyn yw rhoi gwybod i'w hawdurdod lleol am unrhyw newid cyfeiriad.

2.1.22 Roedd y systemau sydd ar waith yn y gwledydd yr ymwelwyd â hwy wedi gwneud argraff fawr ar y Pwyllgor, ynghyd â'r ffaith bod cofrestrfa sifil yn cynnig sail syml a dibynadwy ar gyfer cofrestru etholwyr yn awtomatig.<sup>20</sup> Gofynnwyd yn y papur ymgynghori a ddylid cyflwyno cofrestru awtomatig yn y DU. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch y buddion a geid o gofrestru awtomatig mewn egwyddor ond roedd nifer ohonynt wedi codi cwestiynau ynghylch pa mor ymarferol fyddai ei gyflwyno yn y tymor byr.

Dywedodd Roger Morris:

“Automatic registration presupposes the existence of linked systems not currently operating in the UK. In other countries where the tradition has been different it clearly works well. At a time, however, when major difficulties are being signalled with identity cards and other large-scale linked IT systems, it is difficult to see how automatic registration could be quickly and relatively inexpensively introduced.”

2.1.23 Roedd y Comisiwn Etholiadol yr un mor wylidwus wrth ddweud: “automatic registration tends to feature in countries where there is a national citizens register. The commission believes that better sharing of data would assist the registration process in Britain”.

## **Hyrwyddo Cofrestru**

2.1.24 Mae *Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006* yn rhoi dyletswydd newydd ar swyddogion cofrestru etholiadol i gymryd camau i gofrestru etholwyr cymwys.

2.1.25 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am weithgareddau gan Awdurdodau Lleol a chyrrff eraill fel y Comisiwn Etholiadol i hyrwyddo ymdrechion i gofrestru etholwyr. Roedd llawer ohonynt yn digwydd yng nghyd-destun gwaith i annog pobl ifanc a phobl o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i gofrestru a drafodir mewn man arall yn yr adroddiad hwn. Er hynny, roedd rhai materion cyffredinol sy'n ymwneud â gweithgarwch hyrwyddo wedi dod i'r amlwg.

---

<sup>20</sup> Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar Graffu ar y Mesur Gweinyddu Etholiadau, 2006.

2.1.26 Tynnodd yr AEA sylw at ddiffyg cydgysylltu rhwng gweithgareddau hyrwyddo gan Awdurdodau Lleol.

“A problem that I think that we have with local authorities is that it is down to individual local authorities, which say, ‘We will do our own little thing, and we will pick on little schemes’. Caerphilly, for instance, will be looking at the local democracy week. We have encouraged five members to go on the ‘I’m a councillor, Get me out of here’ event. We can look at that and engage the children to get involved and debate online, and others may do something else. I do not think that there is a co-ordinated approach.”<sup>21</sup>

2.1.27 Dywedodd ymhellach, mewn tystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2006:

“AEA Wales has developed over the last few years to advance the promotion of best practice and build on the efforts of the AEA Nationally. There is still much work to be done however and many different approaches throughout Wales to the task at hand. Whilst it has to be recognised that there is not a one size fits all solution (rural Powys has different problems to Cardiff City) there is a need to share more good practice and to work collaboratively. More recently members of AEA Wales (South Wales East and Central) have organised and agreed a joint publicity campaign which has been extended to members in North Wales and training sessions will be arranged at branch level. This concept should be extended to look at issues such as procurement and developing standardised forms if not all Wales certainly at a regional level.”

2.1.28 Soniodd Naz Malik o AWEMA wrth y Pwyllgor am dechneg lwyddiannus a ddefnyddiwyd gan y prosiect Hawl i Bleidleisio lle’r oedd AWEMA yn gweithio gyda chynghorau Casnewydd, Caerdydd ac Abertawe.

“I remember that, particularly in Swansea, within a matter of three or four weeks, we got 300 people on to the vote register, and that was done without really trying. We started to explain the benefits of registering your right to vote, and we said that one of the benefits was that you could not get any credit or open a bank account without doing so. Those two incentives were enough for people to get their name on the register. We achieved that, but what we really need to achieve is to explain to people the rights and responsibilities that this carries with it.”

Er hynny, pwysleisiodd fod y dull gweithredu hwn yn un a oedd yn gofyn am lawer o lafur ac adnoddau (“labour-intensive and resource-intensive”).<sup>22</sup>

2.1.29 Mae’r Pwyllgor yn dymuno gweld ymdrechu ar y cyd i hyrwyddo’r gwaith o gofrestru etholwyr mewn modd amhleidiol ac mae’n croesawu’r ffaith y bydd Comisiwn y Cynulliad yn cael mwy o bwerau i gymryd rhan mewn gwaith hyrwyddo.

<sup>21</sup> AEA, Tystiolaeth Lafar i’r Pwyllgor, 21 Medi 2005.

<sup>22</sup> Naz Malik, AWEMA, Tystiolaeth Lafar i’r Pwyllgor, 21 Medi 2005.

**Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau gydgysylltu'r gwaith o gofrestru etholwyr ledled Cymru ac ymchwilio i gyfleoedd o ran rhesymoli costau a chapasiti staff.**

**Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ymchwilio i'r modd y bydd dull cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yng ngoleuni Adroddiad Beecham a'r agenda ar Ranbartholi Llywodraeth Leol, yn gallu cyfrannu at gamau i ddelio â materion sy'n ymwneud â chostau a chapasiti sy'n ynebu Swyddogion Cofrestru Etholiadol.**

**Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ystyried y goblygiadau hirdymor o ran capasiti ar gyfer cofrestru unigolion fel y nodwyd mewn tystiolaeth gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA).**

**Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau weithio gyda'r AEA a'r Comisiwn Etholiadol i gydgysylltu gwaith hyrwyddo ar sail genedlaethol a/neu ranbarthol i gofrestru etholwyr.**

**Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ymchwilio i'r profiadau a gafwyd o gynlluniau fel y prosiect Hawl i Bleidleisio ac asesu pa mor ddichonol yw rhoi rhaglen ar waith fesul cam ar gyfer grwpiau sydd wedi'u targedu ledled Cymru.**

**Rydym yn argymhell y dylai'r Cynulliad wneud pob defnydd o'r pwerau a geir yn Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i hyrwyddo cofrestru ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2007 – yn benodol y ffaith bod modd cofrestru hyd at 11 niwrnod cyn y diwrnod pleidleisio.**

**Rydym yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad sydd i'w sefydlu ar ôl etholiad y Cynulliad yn 2007 yn gwneud pob defnydd o'i bwerau dan baragraffau 5 a 6 o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i hyrwyddo cofrestru ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn y dyfodol.**

## **2.2 Y PROFIAD O BLEIDLEISIO**

### **Gwella'r ganran sy'n pleidleisio**

2.2.1 Mae'r gostyngiad yn y ganran sy'n pleidleisio'n fater sy'n peri pryder mawr i'r Pwyllgor ac i rai a roddodd dystiolaeth. Ymchwiliodd y Pwyllgor i nifer o ffactorau a allai effeithio ar faint y ganran sy'n pleidleisio, gan gynnwys camau i hyrwyddo cofrestru, mynediad i bleidleisio, dulliau pleidleisio, a gwybodaeth am y broses ddemocrataidd.

2.2.2 Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor dywedodd Gwilym Morris o The Pollen Shop:

“With regard to turnout, we have raised several issues and concerns, and we think that turnout is dependent on the accessibility and usability of an election. Some work that we are doing currently for the Electoral Commission will again show how friendly a place groups of young people and those with low literacy skills feel a polling station is and whether they think it an intimidating place to go to with official documentation and how that may prevent them from voting. We have also found quite a bit of evidence that those issues also reflect the experiences of older people. As people get older, they become more intimidated by very official buildings, especially those that are just ad hoc buildings. They are not like a council building that can be accessible. In Wales, especially with regard to the turnout for Assembly elections, you will have to think about that kind of thing. The other issue we have found is how relatively important people think the election is. That is at a national level, at a Welsh level, but it is also at a community level, in terms of whether they see the Assembly Members and the Assembly working for them. Your role in terms of voter engagement, as politicians, is really important in that regard. If your constituents think that you are important, and the job that you do is important, they will vote for you. That sounds obvious, but we have found some direct evidence of that.”

### **Pleidleisio drwy'r post**

2.2.3 Tua dechrau'r prosiect craffu roedd y dystiolaeth lafar a gymerwyd ynghylch y ganran sy'n pleidleisio'n ymwneud yn bennaf â'r cynnydd mewn pleidleisio drwy'r post, o ganlyniad i ddileu cyfyngiadau a'r holl gynlluniau peilot ar gyfer pleidleisio drwy'r post a gynhaliwyd yn Lloegr yn 2004. Daeth nifer o faterion i'r amlwg ynghylch y system ac, yn benodol, sut i gael cydbwysedd rhwng gwella'r ganran sy'n pleidleisio a materion sy'n ymwneud â diogelwch. Roedd Roger Morris, a fu'n goruchwyllo cynllun peilot ar gyfer pleidleisio drwy'r post yn unig yn yr Etholiadau Ewropeaidd yn Nwyrain Canolbarth Lloegr yn 2004, wedi pwysleisio ei bod yn hollbwysig cadw hyder ac eglurder ('confidence and intelligibility factor') er mwyn peri i bobl bleidleisio ac nad oedd natur gymhleth y pecynnau a'r cyfarwyddiadau pleidleisio yn 2004 wedi bod o gymorth:

“When you are confronted with a slab of instructions, you think to yourself, ‘Oh my goodness, there is a lot to this, I do not have time, and I

will do it later'. In fact, all it really needed to say was, 'Put a cross like you always do, put it in the envelope and shove it in the box'."

2.2.4 Yn 2004 argymhellodd y Comisiwn Etholiadol i Lywodraeth y DU na ddylid cyflwyno pleidleisio drwy'r post yn unig ar gyfer etholiadau statudol y DU. Roedd tystiolaeth o ffynonellau eraill, gan gynnwys Prif Swyddog Canlyniadau Cymru, Bryn Parry Jones, yn dangos bod pleidleisio drwy'r post yn dod yn fwyfwy poblogaidd ymysg y cyhoedd ond bod awydd hefyd i gadw'r dewis o bleidleisio'n bersonol ac i newid dulliau pleidleisio os oedd angen.

2.2.5 Pan ymgynghorodd y Pwyllgor ynghylch pleidleisio drwy'r post, cafwyd gwrthwynebiad cryf iawn i'r syniad o gael pleidleisio drwy'r post yn unig ar gyfer etholiadau. Y rhesymau pennaf a roddwyd dros hynny oedd natur annibynadwy'r gwasanaeth post a phryderon ynghylch diogelwch a'r perygl o'i gamddefnyddio. Roedd rhai ymatebwyr wedi pwysleisio bod mynd i bleidleisio'n ddyletswydd ddinesig bwysig ac yn weithgarwch cymunedol.

2.2.6 Mae diogelwch pleidleisio drwy'r post wedi dod yn destun pryder mawr yn dilyn rhai erlyniadau a ddenodd gryn sylw ar ôl yr Etholiadau Lleol yn Lloegr yn 2004. Cafodd y Comisiwn Etholiadau fod y pryderon hynny'n ymwneud yn bennaf â'r cyfle i orfodi neu ddylanwadu'n ormodol wrth gwblhau papurau pleidleisio. Roedd y rhan fwyaf o'r honiadau a ddaeth i sylw Swyddogion Canlyniadau a'r heddlu'n ymwneud un ai â gorfodi etholwyr i bleidleisio mewn modd penodol, neu â gorfodi etholwyr i drosglwyddo eu papur pleidleisio gwag i'w gwblhau gan rywun arall. Ceir pryderon hefyd ynghylch dibynadwyedd y gofrestr etholwyr.<sup>23</sup>

2.2.7 Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Prif Swyddog Canlyniadau Cymru:

"There are issues with regard to postal voting.... concerning whether it is possible to introduce a postal-voting system whereby signatures can be checked. That is either signatures on the electoral registration form, the application for postal voting or the declaration form.

On a practical basis, that will be possible only if there is investment in signature recognition machines. From a practical point of view, given the volume of paper that is being handled, there is no way in which any sort of manual check between one form and another would be possible at the time when staff are dealing with an election. We have many hundreds of people per constituency dealing with elections as it is. The process, the timescales that are set, and the expertise that would be necessary to make a judgement on matching one signature to another do not make that a practical proposition without investment."

2.2.8 Mae'r angen am ddulliau adnabod personol ('personal identifiers'), hy dyddiad geni a llofnod yr etholwr, wedi'i gynnwys yn *Neddf Gweinyddu Etholiadau 2006*, ac mae rheoliadau'n cael eu gwneud i nodi'r weithdrefn ar

---

<sup>23</sup> Y Comisiwn Etholiadol, *Delivering Democracy*, 2004 (a) [http://www.electoralcommission.gov.uk/files/dms/DeliveringDemocracyfinalcomplete\\_16306-10935\\_ENS\\_W.pdf](http://www.electoralcommission.gov.uk/files/dms/DeliveringDemocracyfinalcomplete_16306-10935_ENS_W.pdf)

gyfer casglu dulliau adnabod personol ar gyfer rhai sy'n pleidleisio drwy'r post yn awr ac yn y dyfodol. Mae *Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2006* yn pennu bod rhaid i Swyddogion Canlyniadau wirio o leiaf 20% o'r dulliau adnabod personol mewn etholiadau.

2.2.9 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn derbyn bod y lefel isaf o 20% wedi'i chyflwyno am resymau ymarferol, ond mae'n credu y dylid anelu at wirio 100% o'r dulliau adnabod personol ar yr holl ddatganiadau pleidleisio drwy'r post. Byddai'n well ganddo weld gosod terfyn amser ar y defnydd o'r trothwy isaf o 20%, er mwyn sicrhau y ceir gwirio ar lefel o 100% cyn gynted ag y bo modd, ac mae'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn ymrwymo i ddarparu'r adnoddau a'r dechnoleg angenrheidiol i roi hynny ar waith cyn yr etholiad cyffredinol nesaf i Senedd y DU.

**Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau gymryd camau i fonitro agweddau meddwl y cyhoedd at ddiogelwch y system pleidleisio drwy'r post yng Nghymru.**

**Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau roi arweiniad drwy bennu safonau ar gyfer pecynnau pleidleisio drwy'r post sy'n syml ac yn hawdd eu defnyddio ac yn defnyddio iaith sy'n ddealladwy i'r rhan fwyaf o bobl.**

**Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ystyried canllawiau ar gyfer cynghori pobl ynghylch newid eu dull pleidleisio er mwyn sicrhau eu bod yn syml a bod cyhoeddusrwydd digonol ar eu cyfer.**

### **Pleidleisio Electronig**

2.2.10 Mae awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn cael gwneud cais i Lywodraeth y DU am gynnal cynlluniau peilot etholiadol i roi prawf ar ddulliau newydd o bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. Caiff y rhain eu gwerthuso wedyn gan y Comisiwn Etholiadol. Hyd yma, ni chafwyd unrhyw gynlluniau o'r fath yng Nghymru. Rhai o'r dulliau pleidleisio newydd y rhoddwyd prawf arnynt mewn cynlluniau peilot yw:

- e-bleidleisio - drwy ddefnyddio'r rhyngwrwyd a thrwy ddefnyddio ciosgau arbennig mewn gorsafoedd pleidleisio neu fannau cyhoeddus eraill;
- pleidleisio dros y ffôn;
- pleidleisio drwy neges testun;

2.2.11 Ymchwiliodd y Pwyllgor i'r defnydd o bleidleisio electronig mewn gorsafoedd pleidleisio ac o bell. Gwelodd Aelodau ddwy system pleidleisio electronig wahanol mewn gorsafoedd pleidleisio yn yr Iseldiroedd ac yng Ngwlad Belg.

2.2.12 Gwnaed defnydd helaeth o beiriannau pleidleisio electronig yn yr Iseldiroedd ers diwedd y 1990au a defnyddiwyd y rhyngwrwyd ar gyfer etholwyr mewn gwledydd tramor yn etholiadau'r UE yn 2004. Gellir dadlau y byddai

pleidleisio a chofrestru drwy'r rhyngwyd yn cynyddu'r ganran sy'n pleidleisio, yn enwedig ymysg gweithwyr proffesiynol ifanc a phrysur sy'n gallu cael mynediad i'r rhyngwyd yn rhwydd y ceir canrannau pleidleisio isel yn eu plith. Ar y llaw arall, mae'n bosibl na fyddai pleidleisio drwy'r rhyngwyd yn ehangu mynediad i grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio: dyma'r 'rhaniad digidol', fel y'i gelwir. Mae diogelwch yn fater pwysig hefyd. Dylid cael safonau cyfreithiol, gwleidyddol, gweithredol a thechnegol sy'n sicrhau bod arferion e-bleidleisio'n cydymffurfio ag egwyddorion sylfaenol etholiadau democrataidd.

2.2.13 Mae Llywodraeth yr Iseldiroedd wedi cynnal prosiectau sylweddol i roi pleidleisio electronig ar waith fesul cam drwy ddefnyddio peiriannau neu gyfrifiaduron personol mewn gorsafoedd pleidleisio, a phleidleisio o bell (y tu allan i'r orsaf bleidleisio). Nododd Cyngor Etholiadol yr Iseldiroedd fod rhaid i bob system bleidleisio electronig fod:

- Yn gyfrinachol
- Wedi'i saernïo'n gadarn
- Yn hawdd ei defnyddio
- Â'r gallu i ganiatáu cywiro camgymeriadau.

2.2.14 Mae'r rhan fwyaf o'r peiriannau electronig yn yr Iseldiroedd wedi'u cyflenwi gan gwmni o'r enw NEDAP sydd hefyd wedi'u cyflenwi i'r Almaen, Ffrainc ac UDA. Fodd bynnag, yn 2004 rhoddodd Llywodraeth Iwerddon y gorau i gynlluniau i ddefnyddio peiriannau NEDAP ar gyfer yr etholiadau Ewropeaidd oherwydd pryderon nad ydynt yn cynhyrchu cofnod ar bapur o'r modd y cafodd pleidlais ei bwrw, a ddefnyddir rhag ofn y ceir anghydfod neu ail gyfrif.

2.2.15 Ers ymweliad y Pwyllgor, cafwyd adroddiadau yn y cyfryngau hefyd am bryderon a fynegwyd gan grŵp o ymchwilwyr yn yr Iseldiroedd o'r enw "Wij vertrouwen stemcomputers niet" ("Nid ydym yn ymddiried mewn cyfrifiaduron pleidleisio") ynghylch gwendidau posibl yn y system. Ym mis Gorffennaf 2006 cafwyd argymhellion gan Gomisiwn annibynnol ar Bleidleisio Electronig yn Iwerddon ar y cyfarpar pleidleisio a chyfrif i'w ddefnyddio mewn etholiadau yn y dyfodol. Diddymwyd y Comisiwn ym Medi 2006. Nid yw Llywodraeth Iwerddon wedi ymateb i'r adroddiad eto.

2.2.16 Yr enw ar y system arall a ddefnyddir yn yr Iseldiroedd, ac a ddangoswyd i'r Pwyllgor, yw SDU, sy'n defnyddio sgrin gyffwrdd. Mae'r cwmni'n prydlesu'r peiriannau a'r feddalwedd i gwsmeriaid ac yn eu danfon i'r gorsafoedd pleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad. Defnyddir y system SDU newydd yn etholiadau 2006.

2.2.17 Yng Ngwlad Belg, mae'r system bleidleisio electronig wedi'i dylunio fel ei bod yn dynwared y system pleidleisio â llaw yn fanwl. Bydd yr etholwyr yn rhoi cerdyn mewn peiriant, yn gwneud eu dewisiadau drwy gyffwrdd â'r sgrin â phin ac yn gadael eu cerdyn mewn blwch pleidleisiau. Mae'r blwch pleidleisiau'n cyfrif yn awtomatig a chedwir y cardiau pleidleisio yn y blwch rhag ofn y bydd angen ail gyfrif. Sicrhawyd Aelodau fod y system yn hawdd

iawn ei defnyddio ac mai ychydig o wrthwynebiad a gafwyd iddi gan unrhyw sectorau ymysg yr etholwyr.

2.2.18 Pan ymgynghorodd y Pwyllgor ynghylch cyflwyno pleidleisio electronig yng Nghymru, cafwyd bod yr ymatebion at ei gilydd yn adlewyrchu'r angen am gydbwysedd rhwng defnyddio technolegau newydd a allai fod yn anogaeth i etholwyr iau ac ystyriaeth i anghenion etholwyr hŷn. Roedd teimlad cryf, os oedd dulliau electronig i'w defnyddio, y byddai'n rhaid i'r systemau fod yn ddibynadwy er mwyn lleddfu ofnau ynghylch diogelwch. Nododd nifer o'r ymatebwyr y byddai'n peri i'r cyfrif fod yn gyflymach ac yn rhatach. Roedd Comisiynydd Plant Cymru hefyd o'r farn y byddai defnyddio negeseuon testun a'r rhyngwyd yn golygu bod modd i bobl ifanc ddefnyddio dulliau pleidleisio a oedd yn gyfarwydd iddynt ac yn lleihau'r elfen anghyfarwydd sydd yn y weithred o bleidleisio ("*reduce the unfamiliar element of the physical act of voting*"), er bod materion a oedd yn ymwneud â mynediad yn berthnasol i rai grwpiau pobl ifanc ac roedd yr un graddau o bryder ynghylch diogelwch. Roedd Plaid Werdd Ceredigion yn anghytuno â'r cymariaethau a wnaed â phleidleisio ar gyfer rhaglenni 'realiti' ar y teledu:

"Equating the two activities in many peoples' minds would trivialise what should be an important civic duty of adults living in a democracy. Voting is not something to be dashed off in a few seconds of texting – it is a serious matter which merits considered thought, discussion, reading of electoral material etc."

Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn iawn symud tuag at ddefnyddio system pleidleisio electronig sy'n debyg i'r un a geir yng Ngwlad Belg.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn annog Awdurdodau Lleol yng Nghymru i ymgeisio i Lywodraeth y DU i dreialu dulliau pleidleisio electronig.**

## **Mynediad**

2.2.19 Mae pleidleisio drwy'r post a mynediad da i orsafoedd pleidleisio'n hwyluso pleidleisio ymysg yr henoed a'r anabl ac mae hynny'n bwysig o ran y ganran sy'n pleidleisio a thegwch mewn etholiadau. Yn Ionawr 2003 cyhoeddodd y Comisiwn Etholiadol ganllawiau ar yr arferion gorau ar gyfer gweinyddwyr etholiadol.<sup>24</sup> Er hynny, yn ei adroddiad ar Etholiadau'r Cynulliad yn 2003, cafodd y Comisiwn fod llawer o bobl anabl yn teimlo nad oedd eu hanghenion wedi'u diwallu'n ddigonol. Honnodd y Comisiwn hefyd ei fod wedi gweld 'a positive and gradual improvement in the number of accessible polling stations in Wales' erbyn Etholiadau Lleol 2004. Serch hynny, gwnaeth 'Polls Apart Cymru' arolwg o tua 150 o orsafoedd pleidleisio a chael bod 77% nad oeddent yn bodloni ei feini prawf ar gyfer hygyrchedd.<sup>25</sup>

2.2.20 Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Bryn Parry Jones:

<sup>24</sup> Y Comisiwn Etholiadol, *Equal Access to Electoral Procedures*, 2003.

<sup>25</sup> Comisiwn Etholiadol Cymru, *Etholiadau Lleol yng Nghymru*, 2004 (b).



“On accessibility for disabled people, there are practical issues, which will remain the case despite the Disability Discrimination Act 1995. I suspect that a number of buildings that must be used for polling stations, particularly in rural areas where there is little choice, do not have ideal facilities for welcoming disabled people. The Assembly’s initiative for the last election, in terms of providing temporary ramps, was welcomed and was taken advantage of. As to the permanent capacity for buildings to be accessed by everyone, when you are dealing with buildings such as chapel vestries, there is little capacity for investment. There are programmes that both the Assembly and local authorities run, but they usually require match funding for that purpose. Therefore, we do not have a universally ideal situation, though people can now access buildings by using temporary ramps.”

#### 2.2.21 Yn ei dystiolaeth i’r Pwyllgor, dywedodd Gwilym Morris:

“As a group, the public buildings used in Wales are probably slightly less accessible than those used in England, Scotland and Northern Ireland. Again, there is some variation within the overall picture in Wales. There has been a big improvement, and many buildings have been made more accessible. Historically, Wales has been far worse but there has been a dramatic improvement.

The large print version of the ballot paper in Wales is better because electoral administrators are doing a better job in Wales, probably because of the work the Assembly, we and other organisations have done. They are learning more about the training process, because being on display means something obvious—it means that the large print ballot paper is at eye level. We include that in every training package and the guidance, and we talk to people about it. In many other places, it does not happen—they stick it nine feet in the air, which is of no use to anyone, or they just do not put it out. That is an indication that people are doing a good job in terms of training their presiding officers to ensure that they are following all the guidelines that we and the Assembly give them. That regional variation is obvious; for example, in Wales, the local authorities that are doing a good job broadly, in terms of access, are doing a very good job in terms of ensuring that large-print ballots are displayed.”

2.2.22 Yn yr ymatebion i’r ymgynghori ehangach, roedd gwahaniaeth barn ynghylch a oedd trefniadau digonol ar waith i helpu pobl sydd ag anableddau i gofrestru i bleidleisio. Roedd nifer yn credu bod y trefniadau’n ddigonol, yn enwedig am fod *Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995* (DGSA) mewn grym. Teimlai eraill nad oedd DGSA yn cael ei gweithredu’n briodol a bod angen mwy o gydymffurfio.

2.2.23 Nododd nifer o’r rhai a ymatebodd y gallai Swyddogion Cofrestru Etholiadol chwarae rhan ragweithiol. Dywedodd Roger Morris: “*it would be good practice for registration officers to offer direct assistance to anyone who needs it*” a nododd ymhellach fod “*experience with the all-postal pilot voting in the East Midlands in 2004 suggests far fewer people seek this than might be expected, although some allowance must be made for the facility becoming better known*”. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen y byddai modd cymell etholwyr i ffonio a gofyn am gymorth neu ddod i swyddfeydd i geisio

cymorth gan staff (“*encourage electors to telephone and ask for assistance or visit offices to seek assistance from staff*”) a bod cyfle i ddefnyddio cyfleusterau cofrestru dros y ffôn/drwy’r rhyngwyd i gofrestru.

2.2.24 Nododd nifer o’r rhai a ymatebodd fod angen hyfforddi staff sy’n ymwneud â chofrestru etholwyr mewn modd priodol i helpu pobl sydd ag anableddau i gofrestru. Rhoddodd y Comisiwn Etholiadol gyngor cynhwysfawr ar arferion da i weinyddwyr etholiadau yn 2004 mewn cysylltiad â gwella’r mynediad i bleidleisio a chofrestru a gwnaeth argymhellion ar y materion hynny yng Nghymru a ledled y DU yn y naill adroddiad etholiad ar ôl y llall. Mae’n nodi fel a ganlyn:

“We encourage electoral registration officers to provide registration materials in accessible formats. The Commission is undertaking targeted campaign work to encourage people with disabilities to register to vote. There is always more that can be done to assist people across the range of disabilities to register and vote and that assistance can often best be provided at local level in consultation with local disability groups.”

2.2.25 Roedd rhai a ymatebodd wedi awgrymu hefyd y dylid defnyddio asiantaethau fel gwasanaethau cymdeithasol, gofalwyr, Help the Aged, Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched (WRVS), gwasanaethau pryd ar glud a rhwydweithiau priodol eraill i hyrwyddo cofrestru. Tynnodd y Comisiwn Etholiadol sylw at waith a oedd yn digwydd eisoes:

“The Commission is currently funding a project in Ceredigion called “my voice my vote” specifically aimed at ensuring that people with learning disabilities are aware of their democratic rights, the purposes of voting and how they can use their votes to make a positive difference to their lives. The project will produce a resource pack and will facilitate an Awareness Day in the run-up to the National Assembly for Wales election of 2007. It will aim to train a number of workers on the specifics of ensuring that those individuals with learning difficulties play a full time part in our democratic society.”

2.2.26 Mae *Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006* yn gweithredu argymhellion y Comisiwn Etholiadol ac yn mynnu bod awdurdodau lleol yn adolygu eu dosbarthiadau etholiadol a’u manau pleidleisio bob pedair blynedd o leiaf, gyda’r bwriad o sicrhau bod cyfleusterau pleidleisio rhesymol ar gyfer yr holl etholiadau yn yr ardal a bod gorsafoddd pleidleisio’n hygyrch i bobl anabl, hyd y bo’n rhesymol ymarferol.

2.2.27 Tynnodd Cyngor Abertawe sylw at y gwahanol alwadau ar weinyddwyr etholiadau:

“Returning Officers have to consider the needs of all electors in allocating a polling location and at times there can be a conflict between providing a fully accessible polling station and providing one which is in a convenient location. To justify the use of a premise as a polling station we have to prove that we have taken all reasonable steps to find an alternative. This can prove difficult in rural areas where there is not the choice.”

2.2.28 Rhoddodd Cyngor Abertawe wybod ei fod yn cynnal adolygiadau rheolaidd o orsafoedd pleidleisio a'i fod wedi canfod yr holl orsafoedd pleidleisio presennol nad ydynt yn llwyr gydymffurfio â DGSA a'i fod wedi'u haddasu drwy ddefnyddio rampiau dros dro, canllawiau a dolenni sain. Er hynny, nododd *"this is not ideal and is certainly not the answer to providing full disabled access"* ond awgrymodd *"if the electorate are informed by their returning officer that their polling station is not fully accessible then it gives them time to consider and apply for a postal or proxy vote"*. Ychwanegodd fod yr angen i ddarparu dewisiadau pellach ar gyfer pleidleisio i bobl anabl yn golygu bod angen i'r Llywodraeth ystyried cyflwyno *"national electronic register and e-voting to enable the electorate to vote at any polling station or via the internet or their mobile phone"*.

2.2.29 Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen y gellid ymestyn yr amserlen o'r dyddiad cau ar gyfer enwebiadau hyd at ddiwrnod yr etholiad fel bod amser ar gael i staff etholiadol i ymweld â chanolfannau pensïynwyr / cartrefi preswyl i helpu etholwyr, pa un a ydynt yn anabl ai peidio, i bleidleisio a rhoi eu papur pleidleisio yn y blwch pleidleisiau.

### **Blychau Pleidleisiau Symudol**

2.2.30 Defnyddir blychau pleidleisiau symudol yn Nenmarc ac yn yr Iseldiroedd ar gyfer rhai sy'n ei chael yn anodd cyrraedd yr orsaf bleidleisio. Pan holodd y Pwyllgor rai yng Nghymru am y defnydd o flychau pleidleisiau symudol, cafwyd niferoedd eithaf tebyg o blaid ac yn erbyn eu defnyddio ymysg yr ymatebwyr. Roedd y gwrthwynebwyr o'r farn eu bod yn ddiangen gan fod cyfle i gael pleidlais drwy'r post ac roedd pryderon ynghylch diogelwch. Roedd llawer o'r rhai a oedd o blaid eu defnyddio yn cymeradwyo'r syniad mewn egwyddor ond yn amodi hynny drwy ddweud bod angen gweithdrefnau dibynadwy ar gyfer eu defnyddio a bod angen hyblygrwydd mewn ardaloedd gwledig lle na fyddai'n ymarferol eu defnyddio o bosibl.

### **Safonau a Hyfforddiant**

2.2.31 Yn yr un modd â chofrestru, teimlai nifer o'r rhai a ymatebodd y dylid hyfforddi staff mewn gorsafoedd pleidleisio mewn modd priodol i helpu pobl sydd ag anableddau i bleidleisio. Dywedodd Cyngor Sir Benfro: *"polling station staff are now trained and a consistent part of such training is sensitivity to this issue together with practical guidance"*. Bydd swyddog etholiadol awdurdodedig (sydd hefyd yn gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol) yn ymweld â phob un o gartrefi'r Cyngor Sir i helpu'r preswylwyr i fwrw eu pleidlais drwy'r post, os ydynt yn dymuno hynny. Roedd MENCAP Cymru yn teimlo y dylid rhoi gwybod i glercod pleidleisio am anghenion etholwyr sydd ag anableddau dysgu ar gyfer etholiadau yn y dyfodol, gan ei fod wedi dod ar draws achosion lle'r oedd pobl ifanc wedi'u hanfon ymaith am fod arnynt angen cymorth i ddarllen y papur pleidleisio. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Rhanbarth y De-orllewin dywedodd un arall o gynrychiolwyr MENCAP Cymru ei bod wedi cael tystiolaeth gan rai sydd ag anableddau dysgu nad oedd eu gweithwyr cymorth yn barod i fynd â hwy i'r orsaf bleidleisio er eu bod yn dymuno pleidleisio.

2.2.32 Mewn ymateb i'r cynnig y dylid cael safonau statudol yn ymwneud â mynediad i gofrestru a phleidleisio, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd o blaid hynny er bod rhai wedi amodi hynny drwy ddweud bod angen hyblygrwydd mewn rhai amgylchiadau. Dywedodd Roger Morris:

“Detailed prescription is not practical in this context, particularly in the case of polling stations. (Government in any case prescribes the canvass form.) The Disability Discrimination Act 1995 duty based on practicability is well understood and precedented in legislation. It appears to be effective in relation to other kinds of premises.”

2.2.33 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn bwriadu asesu effaith newidiadau yn *Neddf Gweinyddu Etholiadau 2006* cyn ystyried a oes angen newidiadau pellach i ddeddfwriaeth.

2.2.34 Teimlai rhai a ymatebodd y byddai cael rhai safonau eglur yn gymorth i sicrhau mwy o gysondeb ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Dywedodd Cyngor Abertawe:

“At present some local authorities are much more pro-active in promoting access than other authorities, it is very much up to each Electoral Registration Officer/Returning Officer whether he/she provides the Electoral Form in Braille-large print, provide for registration by telephone/internet. The same applies to the Returning Officer and how he/she promotes access to voting.”

**Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau gymryd camau i sicrhau bod y canllawiau ar fynediad i orsafoedd pleidleisio'n gyson a bod rhwymedigaethau dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 wedi'u hegluro yn yr holl ganllawiau.**

**Rydym yn argymhell bod unrhyw ganllawiau ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio yn ymdrin ag anghenion etholwyr sydd ag anabledau dysgu.**

**Rydym yn argymhell bod y Grŵp Cynllunio Etholiadau yn comisiynu asesiad o anghenion hyfforddi ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio ledled Cymru ynghylch materion sy'n ymwneud â mynediad a'i fod yn pennu cyrff a mecanweithiau priodol i ddarparu hyfforddiant.**

**Rydym yn argymhell y dylid gosod targedau i awdurdodau lleol ar gyfer canran y gorsafoedd pleidleisio sy'n gwbl hygyrch i rai o bob gallu.**

**Rhoi gwybod am broblemau sy'n ymwneud â mynediad i bleidleisio**

2.2.35 Yn yr Iseldiroedd, mae'n ofynnol i reolwyr ym mhob gorsaf bleidleisio gynhyrchu adroddiad ar ddiwedd pob pleidlais, yn disgrifio unrhyw anawsterau a gafwyd yn ystod cyfnod y pleidlais. Mae hyn yn ymwneud â materion mynediad yn ogystal ag unrhyw broblemau eraill a gafodd pleidleiswyr yn yr orsaf bleidleisio. Cyflwynir y rhain i'r swyddog canlyniadau ac mae'n ofynnol

iddo yntau, yn ei dro, gyflwyno adroddiad ar faterion a gododd i Gyngor Etholiadol yr Iseldiroedd.

2.2.36 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor yn cytuno â'r cynnig y dylai rheolwr pob gorsaf pleidleisio gyflwyno adroddiad yn debyg i'r arfer cyfredol yn yr Iseldiroedd. Awgrymodd rhai, er hynny, y byddid yn rhoi gwybod am broblemau os oeddent yn codi beth bynnag, a rhoddodd rhai eraill bwys ar yr angen i ddilyn unrhyw adroddiadau a gweithredu ar eu sail. Nododd Roger Morris:

“Informal reporting is already a practice in some areas, and is part of the Electoral Commission’s consideration of performance standards under section 67 of the Electoral Administration Act 2006. Reports should be straightforward and limited to what is strictly necessary.”

2.2.37 Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y gofyniad hwn wedi'i gyflwyno dan Ddeddf Gweinyddu Etholiadau ac mae'n cytuno y bydd yn bwysig i weinyddwyr etholiadol ac eraill weithredu ar sail y canlyniadau.

**Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ystyried pa fecanwaith y gellid ei greu i sicrhau y cymerir camau ynghylch unrhyw broblemau a nodir mewn adroddiadau gan reolwyr gorsafoedd pleidleisio ac y rhoddir sylw iddynt fel mater o flaenoriaeth.**

### **Defnyddio lleoliadau gwahanol**

2.2.38 Cafwyd ymateb cymysg i'r cynnig yn yr ymgynghoriad y dylid defnyddio lleoliadau gwahanol i orsafoedd pleidleisio traddodiadol ar gyfer pleidleisio. Er bod rhai'n gwrthwynebu hynny'n gryf, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn fodlon ar y syniad o ddefnyddio lleoliadau gwahanol fel uwchfarchnadoedd ond roedd llawer yn bendant eu barn y dylent fod yn ddarostyngedig i'r un safonau â gorsafoedd pleidleisio ac y dylid cael diogelwch cadarn. Nododd un ymatebydd y byddai'n anodd i'r pleidiau gwleidyddol ddefnyddio rhifwyr mewn uwchfarchnad (Plaid Werdd Ceredigion).

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn annog Awdurdodau Lleol yng Nghymru i ymgeisio i Lywodraeth y DU er mwyn cymryd rhan mewn unrhyw gynlluniau peilot sy'n ymwneud â defnyddio lleoliadau gwahanol ar gyfer pleidleisio.**

### **Goblygiadau o ran Costau ac Adnoddau**

2.2.39 Fel y trafodwyd yn y rhan o'r adroddiad hwn sy'n ymdrin â chofrestru etholwyr, roedd llawer o'r dystiolaeth a gafwyd yn dangos bod gweinyddu etholiadol yn cael ei ystyried yn wasanaeth isradd yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol.

2.2.40 Mae'r cynnydd a gafwyd mewn pleidleisio drwy'r post wedi codi ystyriaethau ynghylch gallu Swyddogion Canlyniadau a staff etholiadol i

ymdopi â'r broses etholiadol, fel y nododd y Comisiwn Etholiadol yn ei adroddiad ar Etholiadau Llywodraeth Leol 2004 (er bod y ffaith bod etholiadau'n cael eu cynnal ar y cyd ar yr un diwrnod yn ffactor arall).<sup>26</sup> Yn ogystal â hynny, mae goblygiadau o ran costau o ganlyniad i gyflwyno mesurau diogelwch i sicrhau ymddiriedaeth barhaus yn y system a chyflwyno dulliau newydd fel e-bleidleisio, sydd hefyd yn codi cwestiynau ynghylch gallu staff a 'pherchnogaeth' ar y broses etholiadol. Mae rhai Gweinyddwyr Etholiadol yn teimlo bod cynlluniau peilot ar gyfer e-bleidleisio a gafwyd hyd yma wedi codi pryderon ymysg Swyddogion Canlyniadau bod y rheolaeth ar y broses ethol yn cael ei chymryd drosodd i bob pwrpas gan arbenigwyr TG.<sup>27</sup>

#### 2.2.41 Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor dywedodd Roger Morris:

"I took part in an Electoral Commission exercise two or three years ago about the cost of elections, but those figures have long since gone out of the window because that everyone will be manning all the usual polling stations over the next few weeks, but at the same time they will be doing a tremendous postal exercise. Therefore, the cost benefit is also changing. We have not touched on that this morning, but, from the point of view of election management, that is an important issue."

**Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ymchwilio i'r cyfle i resymoli costau a darparu gwasanaethau etholiadol mewn modd cydgysylltiedig yng Nghymru a fydd yn caniatáu i weinyddwyr etholiadol a swyddogion canlyniadau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd gan Ddeddf Gweinyddu Etholiadau 2006, mewn modd effeithiol.**

#### **Materion eraill a godwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad**

2.2.42 Ymysg y materion eraill a godwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad sydd y tu allan i gylch gorchwyl y prosiect craffu y mae costau cynyddol etholiadau ac is-etholiadau Cynghorau Tref a Chymuned; amseriad y diwrnod pleidleisio ar ddydd lau a phleidleisio gorfodol.

#### **Pleidleisio Gorfodol**

2.2.43 Pleidleisio gorfodol a geir yn holl etholiadau Gwlad Belg ac felly y bu ers mwy na chanrif. Ceir amryw o sanctiynau y gellir eu gosod ar rai nad ydynt yn pleidleisio, yn amrywio o ddirwyon i waharddiadau rhag pleidleisio am gyfnod penodedig ar ôl methu â phleidleisio dair gwaith. Cymerir camau yn erbyn rhai sydd heb bleidleisio yn ôl disgrisiwn swyddfa'r maer lleol. O blith yr 8% o etholwyr a oedd heb bleidleisio yn yr etholiad cenedlaethol diwethaf, cymerwyd camau yn erbyn tuag 1% ohonynt.

<sup>26</sup> Op.cit., Y Comisiwn Etholiadol, 2004 (b).

<sup>27</sup> Sylwadau ar egovmonitor gan Malcolm Dumper, Cyfarwyddwr Gweithredol (Polisi a Materion Allanol), Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)  
<http://www.egovmonitor.com/features/evoting2003.html>

2.2.44 Roedd un o'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor yn siomedig am na chafodd ei holi am bleidleisio gorfodol ac roedd nifer bach o'r rhai a ymatebodd wedi nodi mai pleidleisio gorfodol oedd y dull gorau i gynyddu'r ganran sy'n pleidleisio.

### **Amseriad Etholiadau**

2.2.45 Yn yr un modd â phleidleisio gorfodol, nododd llond llaw o'r rhai a ymatebodd ei bod yn bosibl bod amseriad traddodiadol yr etholiadau ar ddydd lau yn effeithio ar y ganran sy'n pleidleisio, ac awgrymu y dylid newid y diwrnod pleidleisio fel ei fod ar ddydd Sadwrn neu ar ddydd Sul neu, yn wir, y dylid rhedeg etholiadau ar y ddau ddiwrnod.

## 2.3 Y RHAN Y MAE POBL IFANC YN EI CHYMRYD MEWN ETHOLIADAU

2.3.1 Yn Etholiadau'r Cynulliad yn 2003, 16 y cant a bleidleisiodd o blith y rhai dan 25 oed. Roedd canran yr etholwyr cofrestredig 18-34 oed a oedd heb bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad yn agos i 80 y cant. [Ffynhonnell: Y Comisiwn Etholiadol "Cymru – ar flaen y gad: agweddau'r cyhoedd tuag at etholiadau'r Cynulliad", adroddiad ymchwil, Medi 2006.] Mae'r Pwyllgor yn credu bod yr ystadegau hyn yn frawychus ac yn cytuno bod rhaid rhoi sylw i'r gostyngiad yn y ganran sy'n pleidleisio, yn enwedig ymysg pobl ifanc.

2.3.2 Mae canran y bobl ifanc sy'n pleidleisio'n bwnc dadlau mewn amryw o wledydd. Yn y DU, gwelwyd gwahaniaethau mewn canrannau pleidleisio rhwng oedrannau yn Etholiad Cyffredinol 2001. Yn gyffredinol, roedd rhai dan 34 oed yn llai tebygol o bleidleisio na rhai mewn grwpiau oedran hŷn.

2.3.3 Gellir canfod cysylltiad rhwng ymddygiad pleidleisio ac agweddau meddwl pobl ifanc ac mewn astudiaeth ar gyfer yr Adran Addysg a Sgiliau cafwyd bod lefelau'r diddordeb mewn gwleidyddiaeth ymysg pobl ifanc wedi gostwng rhwng 1994 a 1998 ac eto yn 2003. Yn 1994, dywedodd 38 y cant fod ganddynt o leiaf rywfaent o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth; yn 2003, nid oedd hynny'n wir ond am 31 y cant. Dros yr un cyfnod, mae'r gyfran sydd heb fynegi unrhyw ddiddordeb o gwbl wedi tyfu o ychydig dros chwarter i ychydig dros un rhan o dair.<sup>28</sup>

2.3.4 Dangosodd yr astudiaeth fod cydberthynas bendant rhwng lefelau diddordeb mewn gwleidyddiaeth a amlygwyd gan oedolion ar yr un aelwyd a chyrhaeddiad academiaidd. Fodd bynnag, roedd y data am 2003 yn dangos bod diddordeb mewn gwleidyddiaeth ymysg pobl ifanc wedi dirywio tra bo'r lefelau diddordeb ymysg oedolion wedi aros yn gyson. Dywed y papur:

"A number of possible explanations exist. It is possible, for instance, that parents now are less effective in communicating their own interest to young people. Alternatively, the decline in interest among young people might indicate that they have responded differently to adults to the political events of recent years."<sup>29</sup>

2.3.5 Yn Sweden, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Sefydliad Democratiaeth a Chymorth Etholiadol (IDEA), corff rhynglywodraethol sy'n hyrwyddo democratiaeth gynaliadwy ledled y byd. Cyfeiriodd IDEA at 'egwyddor y tri etholiad': os na fyddwch wedi pleidleisio ar ôl eich tri etholiad cyntaf, ni wnewch byth.

2.3.6 Roedd ymatebion i ymgynghoriad y Pwyllgor yn priodoli'r ganran pleidleisio wael ymysg pobl ifanc yng Nghymru i amryw o ffactorau, sef: teimlad o fod wedi'u hallgáu gan y broses wleidyddol; teimlad nad yw gwleidyddiaeth neu sefydliadau gwleidyddol yn berthnasol iddynt; difaterwch (ar ran y bobl ifanc eu hunain a'u rhieni) a diffyg gwybodaeth. Gyda golwg ar y pwynt olaf, cyfeiriodd un ymatebydd at enghraifft o fenyw ifanc a atebodd, pan

<sup>28</sup> Park, A Phillips M a Johnson M, *Young People in Britain: the Attitudes and Experiences of 12 to 19 Year Olds*, Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2004. <http://www.dfes.gov.uk/research/data/uploadfiles/RR564.pdf>

<sup>29</sup> Ibid.



holwyd hi a fyddai'n pleidleisio dros ei chynghorydd lleol, nad oedd hynny'n berthnasol iddi hi am nad oedd yn byw mewn tŷ cyngor (*"when asked if she would vote for her local councillor replied that it didn't apply to her because she didn't live in a council house"*). Nododd ymatebydd arall nad oedd pobl ifanc yn teimlo bellach fod ganddynt ddyletswydd ddinesig i bleidleisio. Nododd rhai a ymatebodd fod llawer o bobl ifanc yn ymddiddori mewn gwleidyddiaeth un pwnc.

O ran gwybodaeth am y Cynulliad, roedd ymchwil yn 2006 gan y Comisiwn Etholiadol yn ei adroddiad *'Cymru – ar flaen y gad'* yn dangos bod ymwybyddiaeth pobl ifanc o gyfansoddiad, cylch gwaith a chyflawniadau'r Cynulliad yn eithaf isel. Yn ôl yr adroddiad:

"Ar wahân i godi proffil y Cynulliad ar gyfer 2007, dywedodd llawer o'r ymatebwyr iau y gellid gwella'r ffordd y câi rôl y Cynulliad a chyfrifoldebau dinasgyddion i bleidleisio mewn etholiadau eu dysgu mewn ysgolion gryn dipyn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd newydd adael addysg uwchradd yn methu â chofio cael gwybod am y Cynulliad yn yr ysgol a theimlent y byddai rhaglen addysg fwy trylwyr yn hanfodol i wella ymwybyddiaeth pobl ifanc ohono a'u diddordeb ynddo yn y dyfodol."

### **Peri i bobl ifanc gofrestru**

2.3.7 Ar 21 Mehefin 2006, dywedodd Glyn Mathias, Comisiynydd Etholiadol wrth y Pwyllgor:

"On the issue of sharing good practice, it is clear that local authorities have hitherto often adopted entirely different practices about promoting registration and elections in general. There have been different perceptions in the electoral community about their legal obligations in this area. As I mentioned, the Electoral Administration Bill will oblige electoral officers in local authorities to promote elections, and that includes promoting registration. Where promotional work has been done, there has been very little evaluation of it. We are keen for promotional work to be evaluated, and we hope that that will be developed through the elections planning group. We can then work out the best ways of doing promotional work and that best practice can be shared. So, that is work to be done."

2.3.8 Mae'r Pwyllgor yn gefnogol iawn i ymdrechion i hyrwyddo cofrestru, yn enwedig mewn cysylltiad â chofrestru pobl ifanc a'r rhai mewn grwpiau 'anodd eu cyrraedd', fel y'u gelwir, fel plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal.

2.3.9 Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi sefydlu tîm Gwaith Maes i hwyluso gwaith ar strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus sydd wedi'i hanelu at grwpiau anodd eu cyrraedd, a fydd yn canolbwyntio'n gyntaf ar ddarparu gweithdai democratiaeth i rai 16-19 blwydd oed y tu allan i addysg ffurfiol yng Nghymru. Un agwedd ar y gwaith hwn oedd ymgysylltu â phobl ifanc sy'n byw mewn tai â chymorth (hy rhai sy'n gadael gofal) drwy gydweithio â Ffederasiwn Foyer. Yn 2005 cynhaliodd y Comisiwn ymgyrch cofrestru ar y cyd â'r corff hwnnw a oedd wedi'i hanelu at bobl ifanc sy'n byw yn llety Ffederasiwn Foyer – y mae tair o'i ganolfannau wedi'u lleoli yng Nghymru – a

darparodd gyllid ar gyfer prosiect ymwybyddiaeth etholwyr gyda Ffederasiwn Foyer drwy ei Gronfa Cynlluniau Newydd.

2.3.10 Mewn archwiliad o ymgysylltu gwleidyddol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol a Chymdeithas Hansard ym Mawrth 2006 nodwyd bod gwahaniaethau sylweddol rhwng y lefelau o ymgysylltu gwleidyddol ymysg rhai grwpiau cymdeithasol. Yn ôl yr archwiliad: *“in particular, political disengagement appears entrenched and widespread among those living in ‘very deprived’ areas. Our findings add to the growing body of evidence that suggests social and political exclusion are strongly related and mutually reinforcing.”*

2.3.11 Wrth gynhyrchu ei adroddiad dros dro, roedd y Pwyllgor yn bendant o'r farn y dylid rhoi mesurau ar waith i hwyluso camau i gynnwys pobl ifanc sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac yn economaidd o gymdeithas ac sydd wedi ymddieithrio oddi wrth y broses ddemocrataidd.

**Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ystyried dulliau rhanbarthol a chenedlaethol o hyrwyddo pleidleisio gan bobl ifanc.**

**Rydym yn argymhell y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ystyried rhoi cynlluniau ar waith sydd â'r amcan o hybu pleidleisio gan grwpiau o bobl ifanc sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac yn economaidd.**

### **Addysg dinasyddiaeth ac addysg wleidyddol yng Nghymru**

2.3.12 Cyflwynir addysg dinasyddiaeth yng Nghymru ar hyn o bryd drwy fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yng Nghyfnodau Allweddol 1-4 (5-16 oed). Er bod ABCh yn elfen statudol yng Nghymru ers Medi 2003, mae'r fframwaith yn anstatudol. Bwriedir i'r fframwaith ABCh gael ei gyflwyno drwy amryw o ddulliau ac nid o reidrwydd drwy wersi ABCh ar wahân. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod bwriad i ganiatáu hyblygrwydd i ysgolion gael cyflwyno ABCh mewn modd sy'n addas i'w hanghenion ac yn unol â'r adnoddau sydd ar gael – o fewn yr ysgol ac yn y gymuned leol. Disgwylir i ysgolion ddynodi aelod staff yn Gydgysylltydd ABCh er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd.

2.3.13 Ymchwiliwyd yn fanylach i'r dulliau o ddysgu dinasyddiaeth a 'llythrennedd gwleidyddol' yng Nghymru gyda phennaeth y Cynulliad ar asesu'r cwricwlwm ar gyfer rhai 3-14 oed, a'i gynghorydd ar y fframwaith ABCh yng Nghymru ar 19 Hydref 2006.

2.3.14 Rhoddodd swyddogion ddiffiniad gweithredol o 'llythrennedd gwleidyddol' i'r Pwyllgor:

Mae llythrennedd gwleidyddol yn ymwneud â helpu pobl ifanc i ddod yn wleidyddol ymwybodol ac effeithiol. Mae'n ymwneud â rhoi'r gallu iddynt ddehongli materion a digwyddiadau'n wleidyddol ac, fel y cyfryw, mae'n gymysgedd cymhleth o wybodaeth, sgiliau a gwerthoedd.

Yn achos pobl ifanc, mae llythrennedd gwleidyddol yn cynnwys:

- gwybod sut y gwneir penderfyniadau mewn cymdeithas – yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol;
- bod yn gyfarwydd ag amryw o gysyniadau gwleidyddol sylfaenol;
- cydnabod hawl rhywun i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd;
- gwahaniaethu rhwng polisïau'r prif bleidiau gwleidyddol;
- datblygu set bersonol o werthoedd gwleidyddol a meddu ar y sgiliau a'r hyder y mae eu hangen i'w rhoi ar waith yn ymarferol.

2.3.15 Yn wahanol i'r fframwaith anstatudol yng Nghymru, cyflwynwyd dinasyddiaeth fel pwnc statudol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol i ysgolion uwchradd yn Lloegr yn 2002. Mewn adroddiad diweddar gan Ofsted yn Lloegr nodwyd bod:

“Significant progress has been made in implementing National Curriculum citizenship in many secondary schools. However, there is not yet a strong consensus about the aims of citizenship education or about how to incorporate it into the curriculum. In a quarter of schools surveyed, provision is still inadequate, reflecting weak leadership and lack of specialist teaching.”

2.3.16 Gwnaeth Comisiynydd Plant Cymru y sylwadau canlynol am y mecanwaith presennol ar gyfer addysg wleidyddol yng Nghymru:

“Awareness of political structures and the voting process is included within Personal and Social Education (PSE) and as this area of study is not statutorily assessed there is no measure as to how successfully and consistently these areas are taught within schools. Where PSE is delivered by non-specialist teachers the success of teaching these quite complex matters may depend greatly on the skills and personal knowledge of individual teachers. Therefore, the delivery of political education may be inconsistent across Wales and young people may have varying levels of knowledge in relation to the political process. .. The young people in the advisory groups said that learning about voting in schools would be useful as it would help them to make informed choices, give them more confidence and encourage them to vote. However concerns were raised about PSE lessons and their effectiveness, with the young people stating that lessons about voting should be fun and interactive”.

2.3.17 Mae'r Pwyllgor yn rhannu'r pryder bod y dysgu ar addysg wleidyddol mewn ysgolion yng Nghymru'n anghyson, a bod y modelau ar gyfer ei chyflwyno'n amrywio. Mae'n bendant o'r farn y dylid prif ffrydio addysg wleidyddol ym mywyd pob ysgol ac y dylai fod ar gyfer *pob* plentyn yn yr ysgolion hynny. Dylai staff mewn ysgolion gael eu paratoi'n ddigonol i gyflwyno addysg wleidyddol ac i hybu ymwybyddiaeth o rôl pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd.

2.3.18 Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynlluniau sydd ar gael eisoes i hyrwyddo'r amcan hwn, y mae llawer ohonynt yn canolbwyntio ar ddeall dinasyddiaeth yng nghyd-destun cymdeithas ddinesig, ond mae'n teimlo y dylid cydnabod bod pleidiau gwleidyddol yn rhan annatod o'r gymdeithas ddinesig honno.

2.3.19 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn gefnogol iawn i'r amcan o gael mwy o addysg wleidyddol mewn ysgolion ac roedd llawer ohonynt yn credu y dylai ganolbwyntio ar sicrhau gwell dealltwriaeth o'r system wleidyddol a gwahanol lefelau llywodraeth. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn rhoi pwys ar yr angen i ddysgu am egwyddorion democratiaeth mewn cyd-destun hanesyddol. Er hynny, roedd nifer wedi mynegi pryderon ynghylch y posibilrwydd o ddysgu unochrog.

2.3.20 Serch hynny, er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid cael mwy o addysg wleidyddol mewn ysgolion, cafwyd ymateb cymysg i'r cynnig y dylid dysgu myfyrwyr am wleidyddiaeth plaid. Roedd rhai ymatebwyr yn gwrthwynebu hynny'n llwyr, roedd eraill o'i blaid ond yn gosod amodau pendant ynghylch triniaeth gyfartal a didueddrwydd. Roedd llawer o blaid cael hustyngau, etholiadau ffug a gwahodd cynrychiolwyr lleol i ddod i'r ysgol i gynnal trafodaethau â disgyblion. Roedd nifer o'r rhai a ymatebodd, gan gynnwys Un Llais i Gymru, wedi nodi ei bod yn bwysig cynnwys yr holl bleidiau gwleidyddol.

2.3.21 Gwnaeth MENCAP Cymru rai pwyntiau penodol mewn cysylltiad â disgyblion sydd ag anableddau dysgu:

Young people with learning disabilities have a low level of registration to vote. Our 'Partners in Politics' project seeks to address this. We will be sending people with learning disabilities into schools to talk to young people with LD/statements of special educational need. They will be specially trained to deliver the 'Diversity in Dialogue' programme which encourages self advocacy and involvement in politics.

### **Adolygu'r cwricwlwm a'r fframwaith ABCh**

2.3.22 Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod adolygiad o'r cwricwlwm yn mynd rhagddo ac y bydd adolygiad o'r fframwaith ABCh yn rhan o hynny. Cafwyd gwybod bod ysgolion yng Nghymru wedi'i chael yn eithaf anodd cynllunio ar gyfer rhaglen gytbwys a chynhwysfawr dan y fframwaith presennol ac y bydd y fframwaith diwygiedig yn cynnwys pum thema gyffredinol, a dinasyddiaeth weithredol yn un ohonynt. Mae canllawiau atodol i ysgolion ar y we wedi'u diweddarau, a byddant yn cyfeirio at adnoddau dwyieithog ac yn annog cyrff i helpu i'w darparu.

2.3.23 Mae amserlen yr adolygiad yn cynnwys ymgynghoriad dros dri mis ag ysgolion a chyrrff eraill sydd â buddiant a fydd yn dechrau yn Ionawr 2007, cyhoeddi'r fframwaith yn Ionawr 2008, a'i roi ar waith yn llawn o fis Medi 2008.

2.3.24 Mae'r Pwyllgor yn croesawu camau i roi lle mwy amlwg i ddinasyddiaeth yn y fframwaith diwygiedig ac i roi gwybod am yr adnoddau cymorth sydd ar gael. Mae'n derbyn ei bod yn bwysig sicrhau cydbwysedd wrth ddysgu dinasyddiaeth, ac yn credu bod rhaid peri i'r broses ddysgu fod yn fwy agored i bleidiau gwleidyddol. Ar ôl adolygu'r profiadau a gafwyd mewn gwledydd eraill yn Ewrop, mae o'r farn y dylid cynnwys arbenigwyr o'r tu allan

i Gymru yn y gwaith o hyfforddi a helpu athrawon i ddysgu dinasyddiaeth mewn modd cytbwys.

**Rydym yn argymhell y dylid rhoi sylw penodol yn yr adolygiad cyfredol o'r cwricwlwm, gan gynnwys yr ymgynghoriad cyhoeddus, i'r angen i feithrin amgyffrediad o wleidyddiaeth ymysg pobl ifanc ac i'w dysgu am rolau, polisiau a safbwyntiau pleidiau gwleidyddol yn ogystal â phrosesau gwleidyddol.**

### **Gwrthwynebiad i ddysgu gwleidyddiaeth ymysg staff**

2.3.25 Mae'r Pwyllgor yn derbyn y gallai rhai aelodau staff fod yn amharod i gyflwyno addysg wleidyddol ond yn cydnabod, yr un pryd, os na chaiff addysg wleidyddol mewn ysgolion ei thrin yn iawn ac yn briodol, y bydd y niferoedd sy'n pleidleisio mewn etholiadau ac yn cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd yn dal i ddirywio. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid cael cefnogaeth yn y fframwaith i ysgolion i hybu ymwybyddiaeth o wleidyddiaeth plaid, ac i helpu staff i gyflwyno'r agwedd hon ar ABCh.

2.3.26 Dywedodd swyddogion addysg wrth y Pwyllgor fod Deddf Addysg 1996 yn mynnu bod ysgolion, wrth gyflwyno addysg wleidyddol, yn gwneud hynny mewn modd cytbwys a diduedd ac felly bod rhaid cynnwys mesurau diogelu yn y system. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor fod hynny hefyd yn digwydd mewn meysydd eraill, fel darlledu.

2.3.27 Mewn cysylltiad ag amharodwydd i ddysgu gwleidyddiaeth, dywedodd cynghorydd ar ABCh, Mark Lancett wrth y Pwyllgor:

“That is a significant issue, not just in the delivery of active citizenship and democracy teaching, but in the delivery of personal and social education in general. In primary schools, PSE tends to be delivered by the class teacher, who has to teach every other national curriculum subject, so their expertise in this particular area, by definition, is probably limited. In secondary schools, there are different models of delivering PSE. Sometimes, PSE is delivered by the form tutor, so you would have people with a whole range of subject specialities delivering these elements of the curriculum, and therefore they would not necessarily have confidence in their delivery of the material. Other schools, however, have specialist teams of PSE teachers, not that they have been trained specifically to deliver PSE, but they have volunteered and form a small, core team. That model allows targeted training of those individual members of staff and broad, targeted provision of resources to support the delivery. Again, we have no control over how schools choose to deliver PSE; it is entirely a school management issue. However, training is a major issue.”

2.3.28 Gan nad yw addysg dinasyddiaeth a gwleidyddiaeth yn bwnc statudol yn y cwricwlwm a chan fod hyblygrwydd ar gael i ysgolion wrth gyflwyno ABCh, mae'r Pwyllgor yn nodi'r rhan bwysig y mae penaethiaid ysgol, staff uwch mewn ysgolion a llywodraethwyr ysgol yn ei chwarae wrth sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r broses ddemocrataidd yn datblygu mewn ysgolion.

## Profiadau gwledydd eraill

2.3.29 Yn ystod ei ymweliad â Denmarc, cafodd y Pwyllgor fod pleidleisio'n norm cymdeithasol cryf a bod Uned Etholiadau Denmarc wedi llwyddo i ysgogi grwpiau anodd eu cyrraedd mewn cymdeithas a phobl ifanc. Roedd sefydliadau etholiadol yn Nenmarc, fel y pleidiau gwleidyddol, wedi hwyluso'r gwaith o ysgogi grwpiau gwan.

2.3.30 Ceir cynghorau etholedig yn ysgolion Denmarc sy'n cynnwys dau gynrychiolydd o bob dosbarth. Roedd y tîm Addysg yng Nghyngor Copenhagen yn credu y dylai Pwyllgorau'r Cyngor annog cynghorau ysgolion i roi tystiolaeth mewn gwrandawiadau pwyllgor. Roedd y cyngor wedi paratoi llawlyfr, *Arweiniad y Disgybl i Ddemocratiaeth*. Mae disgwyliad yn Nenmarc y bydd pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol ac mae llawer o gyrff allanol yn cynnal strwythurau penderfynu democrataidd sy'n debyg i'r rhai mewn ysgolion. Roedd y bobl ifanc y cyfarfu'r Pwyllgor â hwy wedi nodi bod disgwyliad pendant iddynt bleidleisio.

2.3.31 Yn Nenmarc caiff yr elw o hapchwarae ei sianelu at gyrff ieuenctid ac roedd y ddau grŵp ieuenctid plaid y cyfarfu'r Pwyllgor â hwy'n derbyn arian oddi wrth y Llywodraeth drwy Gyngor Ieuenctid Denmarc. Oherwydd hynny, maent yn annibynnol ar y rhiant-bleidiau. Mae gan y Ceidwadwyr tua 2,000 o aelodau ac mae tua 3,000 gan y Rhyddfrydwyr. Mae grwpiau'r pleidiau'n mynd i ysgolion i recriwtio ac i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ar adeg etholiad.

2.3.32 Yn Sweden, mae'r ganran sy'n pleidleisio yn uchel ymysg yr holl etholwyr (tua 90% ym mhob etholiad) ac mae'r ganran o etholwyr ifanc sy'n pleidleisio oddeutu 85%. Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai un o'r rhesymau dros hynny oedd y modd y dysgir plant am ddemocratiaeth a gwleidyddiaeth yn yr ysgol. Yn aml, bydd adeiniau ieuenctid y prif bleidiau gwleidyddol (a ariannir gan y wladwriaeth) yn cael eu gwahodd i ysgolion i gychwyn ac ymuno mewn dadleuon am wahanol bynciau ac i ddysgu'r myfyrwyr am wleidyddiaeth eu plaid. Anogir myfyrwyr hefyd i drafod materion sy'n effeithio ar eu haddysg ac mae parch mawr iawn i gynghorau ysgolion a rhoddir gwrandawriad iddynt. Mae llawer o bobl ifanc yn Sweden hefyd yn aelodau o grwpiau neu glybiau anwleidyddol y tu allan i'r ysgol sydd hefyd yn hyrwyddo dadleuon a chyfranogiad mewn democratiaeth ar lefel leol.

2.3.33 Ar ôl ei ymweliad â Denmarc, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gyrff sy'n ymwneud ag addysg wleidyddol yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd (CEWC) Cymru a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ymwneud ag ABCh a gweithgareddau eraill i hybu cyfranogiad. Ymgynghorodd hefyd â chyrrff sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc yng Nghymru.

## Cysylltiadau rhwng cyfranogiad a dinasyddiaeth weithredol

2.3.34 Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor gan swyddogion o Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'r Cynulliad, rhoddwyd pwyslais ar y cysylltiadau rhwng addysg dinasyddiaeth a gwaith mwy cyffredinol ar weithgareddau i hybu

cyfranogiad. Mae'r gwaith hwn yn seiliedig ar ymrwymiad y Cynulliad i erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn Hydref 2006 rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau i ysgolion ar ddull gweithredu cynghorau ysgolion, sydd yn orfodol bellach yn holl ysgolion Cymru, ac a ystyrid gan dystion eraill yn fecanwaith pwysig ar gyfer dysgu sgiliau i bobl ifanc ar gyfer cymryd rhan mewn democratiaeth.

2.3.35 Mae CEWC-Cymru yn cydnabod mai cyfranogi mewn cynghorau ysgolion yw un o'r dulliau gorau o gynnig profiad i bobl ifanc mewn llywodraethu "lleol", ond pwysleisiodd na ddylid creu cynghorau ysgolion os nad oedd ethos cyfranogiad i'w hategu sy'n cymell holl aelodau'r ysgol i fynegi eu barn. Mae wedi cynhyrchu pecyn cymorth gydag astudiaethau achos i helpu athrawon ac uwch reolwyr i ddatblygu sgiliau cyfranogi eu myfyrwyr, ac mae'n datblygu cynlluniau gwersi ABCh ar y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen i gymryd rhan, gan ganolbwyntio ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf lle y mae'r cyfraddau pleidleisio ymysg etholwyr yn is na'r cyfartaledd.

### **Yr arferion da sy'n bod eisoes**

2.3.36 Cafodd y Pwyllgor nifer o ymatebion i'w ymgynghoriad a thystiolaeth lafar a oedd yn cyfeirio at enghreifftiau o ymarfer da mewn addysg dinasyddiaeth. Nododd waith Cynghorau leuenctid ac arferion fel etholiadau ffug, hustyngau, ymweliadau â chynghorau a digwyddiadau democratiaeth a oedd wedi'u hanelu at fyfyrwyr chweched dosbarth. Cafwyd gwybod am raglen dinasyddiaeth lwyddiannus yn Nhor-faen, gyda chynlluniau sy'n cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol i hybu ymwybyddiaeth o ddull gweithredu'r cyngor a'r broses etholiadol. Fodd bynnag, ychwanegodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen: "*it is often difficult to get schools on board even when willing and free resources are available from the local authority*". Rhoddodd Cyngor Abertawe wybod hefyd am raglen weithredol i ymgysylltu â'r gymuned a oedd yn cynnwys rhaglen flynyddol o ymweliadau ag ysgolion gan yr uned etholiadau ac wythnosau democratiaeth leol blynyddol a oedd wedi'u hanelu'n bennaf at bobl ifanc. Dywedodd Cyngor Tref y Rhyl fod cyngor ysgol mewn ysgol leol wedi dylanwadu arno i wneud penderfyniadau a oedd wedi effeithio'n uniongyrchol ar fywyd yr ysgol ac wedi arwain at gyflwyno dodrefn lle chwarae, gan roi cipolwg i bobl ifanc ar y broses penderfynu democrataidd.

2.3.37 Soniodd y Comisiwn Etholiadol wrth y Pwyllgor am ei waith cyffredinol yng Nghymru i wella gwybodaeth am ddemocratiaeth ymysg rhai 16-24 blwydd oed, a oedd yn cynnwys rhedeg gweithdai ar gyfer pobl ifanc; hwyluso cynadleddau 'Diwrnod Democratiaeth' ar gyfer ysgolion a cholegau; ymweld â cholegau a phrifysgolion mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol er mwyn annog myfyrwyr i gofrestru; cynhyrchu adnoddau addysg fel y 'Democracy Cookbook' a'r CD-Rom ryngweithiol 'Democracy Disk'. Drwy ei Gronfa Cynlluniau Newydd, cynhaliwyd rhaglen o ymweliadau ag ysgolion gan Aelodau o'r Cynulliad drwy gydweithio â Chymdeithas Hansard.

2.3.38 Mae Gwasanaeth Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn trefnu ymweliadau ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd i roi cyfle i ddisgyblion ddysgu mwy am y Cynulliad ac am bwysigrwydd pleidleisio a democratiaeth, gyda chysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith ABCh. Mae'n

darparu adnoddau bwrdd gwyn i athrawon ac yn trefnu digwyddiadau addysgol. Dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* caiff Comisiwn y Cynulliad bwerau penodol i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o etholiadau a llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru a chaiff weithredu rhaglenni addysg neu wybodaeth neu roi grantiau i bersonau neu gyrff eraill i'r diben hwnnw. Caiff y Comisiwn hefyd ddarparu cymorth ariannol i'r Comisiwn Etholiadol er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 13 o *Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000* mewn cysylltiad yn benodol â hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o etholiadau a llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru.

2.3.39 O ganlyniad i drefniadau trosiannol sydd wedi'u nodi yn y *Ddeddf*, caiff Comisiwn Cysgodol y Cynulliad ymgymryd â gwaith o'r fath o hyn tan etholiadau'r Cynulliad yn 2007. Carai'r Pwyllgor weld pob defnydd yn cael ei wneud o'r cyfle hwn i hyrwyddo ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cyfranogi yn y broses ddemocrataidd.

2.3.40 Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor gan Brif Weithredwr Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA), Mr Naz Malik, nodwyd y pwysigrwydd o sicrhau bod addysg ar gael i bawb. Nododd broblemau penodol sy'n wynebu cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig mewn cysylltiad â dulliau cyfathrebu, amgyffred a deall, ac atgoffodd y Pwyllgor am ymdrechion blaenorol i roi rhaglen addysg ar waith lle'r oedd Aelodau o'r Cynulliad yn cael eu cysgodi. Aeth Mr Malik ymlaen i awgrymu:

"More importantly, it would be quite good to have some kind of shadowing scheme that involves schools in public debates. Why can we not have a national debating competition, for example, the finals of which could be held in the National Assembly's debating chamber?"

Four of the last six teams could come to compete in the final round in the Chamber with the active participation of Assembly Members, or perhaps we could find pupils who may have alignment with different political parties who could be mentored by Assembly Members. I think that that is one way of doing it.

Another way could be to involve local councillors and local authorities in local competitions where there is a shadowing scheme with local councillors. That could be an important way of doing it."

**Rydym yn argymhell bod canllawiau i ysgolion ar ddysgu 'llythrennedd gwleidyddol' yn cyfeirio'n benodol at ddysgu am bleidiau gwleidyddol a rôl pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd yn ogystal â chysyniadau gwleidyddol sylfaenol.**

**Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu canllawiau i uwch reolwyr ysgolion a llywodraethwyr er mwyn sicrhau cydnabyddiaeth i'r pwysigrwydd o hyrwyddo llythrennedd gwleidyddol ym mywyd yr ysgol mewn modd cytbwys ac amhleidiol ac i'w hannog i wahodd cyrff gwirfoddol a phreifat, a rhai'r gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol, i ysgolion i hwyluso dadleuon ymysg disgyblion.**



**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydgysylltu'r canllawiau y mae'n eu rhoi i ysgolion ar weithrediad cynghorau ysgolion ac ar weithgareddau dinasyddiaeth, i sicrhau bod y rhain yn cyfrannu'n briodol at feithrin amgyffrediad o wleidyddiaeth ymysg disgyblion a bod cysylltiadau priodol yn cael eu creu rhwng gweithgareddau'r cyngor ysgol a chynlluniau eraill sy'n ymwneud â dinasyddiaeth, fel gwahodd gwleidyddion i ysgolion.**

**Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei strwythurau mewnol i sicrhau dull strategol a chydgyssylltiedig o ddarparu addysg dinasyddiaeth, gan gwmpasu'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm, hyfforddiant athrawon a gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth.**

**Rydym yn argymhell y dylid canolbwyntio mewn canllawiau a hyfforddiant ar sicrhau bod yr un anogaeth yn cael ei rhoi i'r holl ddisgyblion, beth bynnag fo'u cefndir, i gymryd rhan mewn cynghorau ysgolion a chynlluniau dinasyddiaeth eraill ac y dylai Estyn fonitro cynrychiolaeth a chyfranogiad o safbwynt cydraddoldeb.**

**Rydym yn argymhell y dylid rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod yr holl ysgolion uwchradd yn rhoi Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) gan ddefnyddio athrawon y darparwyd hyfforddiant ac adnoddau arbennig iddynt.**

**Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad drwy hwyluso hyfforddiant i athrawon mewn ABCh, gan ddarparu pecynnau adnoddau ar gyfer hyfforddiant o'r fath a chymorth i athrawon sy'n darparu ABCh.**

**Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod yr enghreifftiau a geir o ymarfer da ym maes addysg dinasyddiaeth ac addysg wleidyddol yn cael eu lledaenu'n ddigonol i'r holl ysgolion a grwpiau ieuenctid yng Nghymru.**

**Rydym yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad a'r awdurdodau lleol yn datblygu cynlluniau sy'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc o wahanol gefndiroedd i gysgodi gwleidyddion etholedig yn y Cynulliad ac mewn Llywodraeth Leol, ac i gymryd rhan mewn dadleuon gyda gwleidyddion. Dylai cynlluniau o'r fath roi sylw i arferion da a geir yng Nghymru ac mewn mannau eraill.**

## 2.4 CYDNABOD AMRYWIAETH MEWN TREFNIADAU ETHOLIADOL

### laith

2.4.1 Mae gallu ieithyddol yn ffactor o bwys o ran rhoi mynediad i unigolion i'r broses etholiadol, boed hynny yng nghyd-destun cofrestru, neu'r weithred o bleidleisio, drwy ddeall y papur pleidleisio, er enghraifft, neu allu i gymryd cyngor. Ar hyn o bryd, mae ffurflenni statudol allweddol fel papurau pleidleisio a ffurflenni cofrestru ar gael yn Gymraeg a Saesneg yng Nghymru. Yn Rhagfyr 2004 cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb i gynigion gan y Comisiwn Etholiadol:

**Returning Officers should have powers to provide sample ballot papers in polling stations on request in a variety of languages, Braille and large print. However, electors would continue to vote on a standard ballot paper.**

The Government agrees with the aim of this recommendation, and wants to make voting easier and more accessible for all the electorate. However, rather than producing sample ballot papers which may cause confusion, we will enable Returning Officers to deliver improved services, mirroring best practice by supporting the development of guidance in different formats

**Guidance notes should also be available at each polling station and on ballot papers that explain clearly how to vote. These should be provided in other languages, if deemed necessary, and in a pictorial format.**

The Government agrees with the aim of this recommendation. However, we do not wish to clutter ballot papers with additional wording and will therefore seek to ensure that additional information is provided at polling stations in different formats reflecting current best practice.

**Returning Officers should have statutory powers to provide key statutory forms (including registration forms, polling station notices, etc) in a variety of languages and formats, in addition to English and Welsh. The languages used would be at the discretion of the Returning Officer.**

The Government agrees with this proposal to allow Returning Officers to provide key statutory forms in a variety of languages and formats, in addition to English and Welsh, at their discretion, with the exception of registration forms. The registration forms should in the Government's view be in English and Welsh only, but should be supported by guidance notes in a variety of languages and formats available on request. This will support the electorate but would also clarify that such forms should be completed in English or Welsh only.<sup>30</sup>

2.4.2 Er bod yr holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg, mae cwestiynau'n dal i godi ynghylch cymorth a chyngor sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae materion o'r fath yn codi mewn

---

<sup>30</sup> Adran Materion Cyfansoddiadol, *The Government's Response to The Electoral Commission's report: Voting for change – An electoral law modernisation programme*, Rhagfyr 2004.  
<http://www.dca.gov.uk/elections/govresp-vfc-cm6426.pdf>

gwledydd eraill lle y ceir mwy nag un iaith swyddogol. Codwyd y dyfyniad isod o Adroddiad Elections Canada ar gyfer 2000.

For the general election, all election officers were trained to carry out their responsibilities to provide service in both official languages. As usual, returning officers were instructed to recruit bilingual workers. In areas of the country where it was difficult to recruit bilingual staff, an alternative was to give unilingual election workers descriptive cards explaining to electors how to obtain service in either official language. A toll-free 1 800 number for bilingual service from Elections Canada was available, all election-related information was available in both official languages, and our Web site is fully bilingual.<sup>31</sup>

2.4.3 Gyda golwg ar bleidleisio dwyieithog, nododd Bryn Parry Jones ei fod yn 'necessary requirement in terms of the expectations of the people of Wales...' ond 'it is not necessarily fully understood in terms of the way that elections are run on a UK basis'.

2.4.4 Mae'r arferion cyfredol mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau etholiadol mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg wedi'u nodi mewn Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol.

### **Yr ymateb i'r ymgynghoriad**

2.4.5 Gyda golwg ar y gallu i gael cyngor yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer etholiadau, nododd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd fod deunydd darllen wedi'i ddarparu yn Gymraeg ac yn Saesneg ac nad oedd hynny'n fater a oedd yn codi. Roedd cytundeb cyffredinol hefyd y dylai presenoldeb staff Cymraeg eu hiaith adlewyrchu natur ieithyddol yr ardal. Cydnabuwyd y byddai hynny'n fwy o her mewn ardaloedd cymysg eu hiaith. Nododd Cyngor Tref Llanelli: "*perhaps a more conscious effort needs to be made by Returning Officers to ensure that at least one staff member at each station is bilingual*". Dywedodd Cyngor Abertawe nad oedd yn ymarferol darparu aelodau staff sy'n medru'r Gymraeg yn rhugl yn ei holl orsafoedd pleidleisio ond "*we can identify parts of our area where Welsh is predominately spoken and we do ensure that at least one member of the polling station staff in those areas can converse in Welsh*".

2.4.6 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd wedi nodi mai darparu deunydd darllen mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg oedd y ffactor allweddol o ran cymell mwy o bobl dduon a rhai o leiafrifoedd ethnig i gofrestru a phleidleisio. Nododd nifer o'r ymatebwyr hefyd fod cydgysylltu rhwng arweinwyr cymunedol a rhwydweithiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac awdurdodau lleol yn bwysig, ac awgrymodd rhai y dylid cyflwyno addysg ar y broses etholiadol. Yn yr ymateb gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe nodwyd:

"Each authority must be seen to go into their communities, possibly via mosques, meeting places, community leaders and holding open days where they can register to vote.

---

<sup>31</sup> Elections Canada, Report of the Chief Electoral Officer of Canada on the 37th General Election Held on November 27, 2000 <http://www.elections.ca/content.asp?section=gen&document=stat08&dir=rep/sta&lang=e&anchor=8&textonly=false#8>

...we can identify areas of Swansea that have a high record of BME electors, therefore we always seek to ensure that one member of staff employed at the polling stations would be able to converse in their relevant language. This appointment is made by involving the community groups.”

2.4.7 Awgrymwyd mewn rhai ymatebion y dylid trin yr holl bleidleiswyr yr un fath beth bynnag fo’u cefndir.

### **Profiadau mewn gwledydd eraill**

2.4.8 Pan edrychodd y Pwyllgor ar brofiadau mewn gwledydd eraill, gwelodd fod y sefyllfa’n amrywio o ran y ddarpariaeth ar gyfer pleidleiswyr yr oedd eu hiaith gyntaf yn wahanol i un y wlad lle’r oeddent yn byw.

2.4.9 Yn Nenmarc ceir 74 o Gynghorau Integreiddio Lleol a rhan o waith y Cynghorau yw cynefino mewnfudwyr newydd â’r system wleidyddol a’u hannog i gymryd rhan. Nid oes gofyniad cyfreithiol i wneud trefniadau arbennig ar gyfer rhai nad ydynt yn siarad Daneg ond ceir rhai bwrdeistrefi sy’n darparu ar gyfer etholwyr drwy ddefnyddio ieithoedd eraill.

2.4.10 Mae dinas Brwsel yn swyddogol ddwyieithog. Mae gan bob grŵp ieithyddol (Walwniaid a Ffleminiaid) ei restr etholwyr ei hun ac, mewn llawer achos, ei ymgeiswyr ei hun. Yng Ngwlad Belg gyfan, ceir tair ardal ieithyddol: un Fflemeg, un Walwneg ac un Almaeneg. Mae i bob un ohonynt ei rhestr a’i hymgeiswyr ei hun. Ym mhob ardal, cynhyrchir y rhestr etholwyr yn iaith swyddogol yr ardal honno’n unig. Nid oes unrhyw drefniadau arbennig ar gyfer etholwyr nad yw eu mamiaith yn iaith swyddogol yn eu rhanbarth etholiadol ar gyfer etholiadau lleol a chenedlaethol. Mae canllawiau ar gyfer etholiadau Ewropeaidd, lle y caiff unrhyw un o ddinasyddion yr UE fwrw pleidlais, yn cael eu cynhyrchu yn Saesneg ac yn Almaeneg.

2.4.11 Roedd rhagdybiaeth ym mhob un o’r tair gwlad y byddai etholwyr yn medru rhywfaint o iaith eu gwlad fabwysiedig er mwyn cael hawl i bleidleisio (un ai drwy ddod yn ddinasydd neu ennill cymhwyster preswyllo).

### **Fformat deunydd etholiadol**

2.4.12 Roedd y rhan fwyaf o’r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor yn teimlo bod ffurflenni a gwybodaeth am bleidleisio a chofrestru’n glir ac yn ddealladwy, er bod cydnabyddiaeth y gallai etholwyr llai llythrennog brofi anhawster.<sup>32</sup> Roedd lleiafrif sylweddol yn credu eu bod yn anodd eu deall, gan roi rhesymau fel iaith gymhleth a manwl a phroblemau o ran deall trefniadau etholiadau’r Cynulliad a chymhwyster dinasyddion yr UE i bleidleisio yn etholiadau’r Cynulliad ac mewn etholiadau lleol. Gyda golwg ar iaith gymhleth, nododd CEWC-Cymru:

“On the accessibility of written materials, it is not only Welsh speakers or black and ethnic minority groups that struggle with understanding the language in which elections are conducted. The language used on forms

---

<sup>32</sup> Ibid. Q.21

and on the media throughout the process needs to be easily understood and jargon-free, for those with special education needs and others to feel more comfortable and informed about the process. Putting candidates' pictures next to their names on ballot sheets as a matter of course should be given serious consideration too in this regard."

2.4.13 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Comisiwn Etholiadol ar ei waith ar dargedu grwpiau a allai fod yn llai tebygol o gofrestru a phleidleisio, a dywedwyd wrtho fod rhaglen Grantiau Partneriaeth newydd y Comisiwn yn ariannu prosiectau sy'n gweithio gyda rhai o bob oedran ac sydd wedi'u hanelu at rai nad ydynt mewn addysg ffurfiol, rhai mewn grwpiau lleiafrifol ethnig a rhai sydd ag anableddau. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cynlluniau sydd wedi'u hanelu at y grwpiau targed hynny.

**Rydym yn argymhell y dylai fod yn ofynnol darparu cymorth a chyngor dwyieithog i bobl drwy'r prosesau cofrestru a phleidleisio yn yr holl ardaloedd etholiadol yng Nghymru. Os nad yw'n bosibl cael staff dwyieithog yn bresennol, dylai pobl allu cael cyngor personol yn eu dewis iaith, drwy rif rhadffon, er enghraifft.**

**Rydym yn argymhell y dylid darparu cyngor a chymorth i rai penodol mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg, drwy'r prosesau cofrestru a phleidleisio, mewn ardaloedd etholiadol yng Nghymru yn ôl yr angen.**

**Rydym yn argymhell y dylid gwneud ymdrech barhaus i beri i'r holl ddeunyddiau etholiadol yng Nghymru fod yn fwy dealladwy ac i roi pob sylw i anghenion pobl sydd ag anableddau dysgu, rhai sydd â llythrennedd cyfyngedig a rhai nad yw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.**

## **ATODIADAU**

### **Atodiad A**

#### **Rhestr o'r dystiolaeth a gymerwyd**

##### **Tystiolaeth lafar**

Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol  
Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan  
Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd Cymru  
Bryn Parry Jones, Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol dros Gymru yn yr etholiad Ewropeaidd ym Mehefin 2004  
Roger Morris, Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol dros Ddwyrain Canolbarth Lloegr yn etholiadau Mehefin 2004  
Scope Cymru  
The Pollen Shop  
Llywodraeth Cynulliad Cymru – Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau  
Llywodraeth Cynulliad Cymru – Yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol

##### **Tystiolaeth ysgrifenedig**

Clive Green  
Comisiynydd Plant Cymru  
Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd - Cymru (CEWC-Cymru)  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen  
Cyngor Cymuned Aberdaron  
Cyngor Cymuned Amroth  
Cyngor Cymuned Bagillt, sir y Fflint  
Cyngor Cymuned Bethesda  
Cyngor Cymuned Bontnewydd  
Cyngor Cymuned Bracla  
Cyngor Cymuned Bronington  
Cyngor Cymuned Burton  
Cyngor Cymuned Ceri  
Cyngor Cymuned Coety Uchaf  
Cyngor Cymuned Cwm Cadnant  
Cyngor Cymuned Ewenni  
Cyngor Cymuned Gelli-gaer  
Cyngor Cymuned Gwenfô  
Cyngor Cymuned Henllys  
Cyngor Cymuned Llanbadarn Fawr  
Cyngor Cymuned Llandochoau  
Cyngor Cymuned Llangatwg Feibion Afel  
Cyngor Cymuned Llangedwyn  
Cyngor Cymuned Llangunllo  
Cyngor Cymuned Llangynog  
Cyngor Cymuned Llannor  
Cyngor Cymuned Llys-faen  
Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy

Cyngor Cymuned Merthyr Cynog  
Cyngor Cymuned Nelson  
Cyngor Cymuned Penalun  
Cyngor Cymuned Pen-hw  
Cyngor Cymuned Pont-y-p<sup>^</sup>wl  
Cyngor Cymuned Solfach  
Cyngor Cymuned Treamlod  
Cyngor Cymuned y Mwmbwls  
Cyngor Cymuned yr Hob  
Cyngor Cymuned yr Ystog  
Cyngor Gwledig Llanelli  
Cyngor Sir Abertawe  
Cyngor Sir Benfro  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
Cyngor Tref Aberdaugleddau  
Cyngor Tref Abergele  
Cyngor Tref Abergwaun  
Cyngor Tref Bae Colwyn  
Cyngor Tref Biwmares  
Cyngor Tref Cas-gwent  
Cyngor Tref Cei Connah  
Cyngor Tref Hwlfordd  
Cyngor Tref Llanelli  
Cyngor Tref Penarth  
Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn  
Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr  
Cyngor Tref Pontardawe  
Cyngor Tref Pyle  
Cyngor Tref Treffynnon  
Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan  
Cyngor Tref yr Wyddgrug  
Cyngor Tref y Rhyl  
Cymdeithas Cyngorau Tref a Chyngorau Cymuned Mwyaf Gogledd Cymru  
Mencap (Jane King)  
Paul Richards  
Plaid Werdd Ceredigion  
Roger L. Brown, Ficer y Trallwng  
Roger Morris  
Simon Moffett  
Un Llais i Gymru  
Y Comisiwn Etholiadol

Gellir gweld yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dogfennau allweddol eraill ar dudalen y Pwyllgor ar y we:  
<http://www.wales.gov.uk/keypubassemlocgovpubsvs/content/elect-e.htm>

## **Atodiad B**

### **Ymweliad y Pwyllgor â'r Iseldiroedd, Denmarc a Gwlad Belg**

#### **1. Cyflwyniad**

1.1 Dyma gylch gorchwyl Prosiect Craffu'r Pwyllgor :

- Ystyried y materion sy'n berthnasol i etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol yng Nghymru, yn enwedig, cofrestru pleidleiswyr, y nifer sy'n pleidleisio, cyfranogiad pobl ifainc a phleidleisio dwyieithog.
- Ystyried ystod o fesurau a ddefnyddir mewn systemau gwleidyddol eraill i gynyddu'r nifer sy'n pleidleisio, gwella'r system gofrestru a hyrwyddo cyfranogiad pobl ifainc, a gweld a ellid eu cymhwyso yng Nghymru ar gyfer etholiadau llywodraeth leol a'r Cynulliad Cenedlaethol.
- Ystyried a oes angen unrhyw fesurau ychwanegol i sicrhau bod trefniadau pleidleisio yng Nghymru yn llwyr gynhwysol.
- Argymell gwelliannau.

1.2. Rhwng Medi 5 ac 8, 2005 ymwelodd y Pwyllgor â'r Iseldiroedd, Denmarc a Gwlad Belg i gasglu tystiolaeth ymhellach am gofrestru pleidleiswyr; cyfranogiad pobl ifainc; pleidleisio electronig a phleidleisio dwyieithog.

Aelodau'r Pwyllgor oedd ar gael ar gyfer yr ymweliad oedd:

Ann Jones AC (Cadeirydd)

Sue Essex AC

Mike German AC

Dai Lloyd AC

Brynle Williams AC

Aeth Virginia Hawkins, Clerc y Pwyllgor ac Alys Thomas, Ymchwilydd GYA gyda hwy.

1.3 Adroddiad yw'r papur hwn am weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod yr ymweliad ac mae'n dangos rhai o'r prif faterion a godai yn sgil y trafodaethau.

#### **2. Yr Ymweliad**

##### **2.1 Dydd Llun 5 Medi: Yr Hague, Yr Iseldiroedd.**

Yn gyntaf, yn y Llysgenhadaeth Brydeinig cafodd y Pwyllgor eu briffio ar yr Iseldiroedd gan Andrew Price, Pennaeth yr Adran Wleidyddol. Daeth Andre Batenburg, o'r Llysgenhadaeth, gyda'r Pwyllgor am weddill y diwrnod.

Ymwelodd y Pwyllgor â'r Cyngor Etholiadol sydd yn rhan o'r Adran Materion Cyfansoddiadol a Deddfu. Corff ymgynghorol yw'r Cyngor i'r Llywodraeth a'r Senedd ar faterion ymarferol sydd yn ymwneud ag etholiadau neu etholfraint ac mae'n gweithredu fel gorsaf bleidleisio ganolog mewn etholiadau cenedlaethol ac ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop. Cyfarfu'r Pwyllgor â rhai o staff ysgrifenyddiaeth y Cyngor a chael eu briffio ar system etholiadol yr Iseldiroedd; system pleidleisio electronig a phleidleisio o bell (defnyddio TGCh mewn etholiadau).

Yn y prynhawn, ymwelodd y Pwyllgor ag SDU sef argraffydd a chyhoeddwr y wladwriaeth yn yr Iseldiroedd. Rhoddodd staff yr SDU gyflwyniad i'r Pwyllgor ar



'Bleidlais Newydd', ei system bleidleisio electronig sydd â'r cyfrifiadur personol yn sail iddi. Cafodd Aelodau'r Pwyllgor gyfle i roi cynnig ar y system.

## **2.2. Dydd Mawrth 6 Medi: Copenhagen, Denmarc.**

Yn y bore cyfarfu'r Pwyllgor â Per Bregnegaard, Maer Copenhagen dros Addysg a Ieuentid, Karsten Strorup, Cydlynnydd Rhyngwladol dros Addysg a Gweinyddu'r Ifainc, a Merete Papapetros, Swyddog Datblygu Ysgolion yn Neuadd y Dref Copenhagen. Buont yn trafod cyfranogiad gwleidyddol gan bobl ifainc.

Ar ôl hynny, cyfarfu'r Pwyllgor ag Anne Birte Pade a Grete Kongstad, o'r Uned Etholiadol yn y Weinyddiaeth Fewnol a lechyd a buont yn trafod cofrestru a'r nifer sy'n pleidleisio; system etholiadol Denmarc; swyddogaeth yr Uned wrth hybu pleidleisio a hyrwyddo mynediad at y gorsafoddd pleidleisio. Wedyn, cafwyd cyfarfod amser cinio ag Einar Lemche, Pennaeth Cynrychiolaeth Yr Ynys Las yn Copenhagen, a'i staff.

Ar ôl cinio ymwelodd yr Aelodau â phencadlys Konservativ Ungdom, adain ieuentid Plaid Geidwadol y Bobl, a gwranddo cyflwyniad am weithgarwch y sefydliad gan y Cadeirydd Cenedlaethol Kasper Hülsem a swyddogion eraill y blaid. Aethant ymlaen wedyn at y Weinyddiaeth Ffoaduriaid, Mewnffudo ac Integreiddio lle y cawsant gyfarfod â Sükrü Ertosun, Cadeirydd y Cyngor dros Leiafrifoedd Ethnig ac Aelodau eraill y Cyngor a staff. Trafodwyd gwaith y Cyngor a'i gynghorau integreiddio lleol wrth helpu mewnfudwyr newydd i ddod yn gyfarwydd â'r system wleidyddol a chyfranogiad gwleidyddol.

## **2.3. Dydd Mercher, 7 Medi, Copenhagen, Denmarc.**

Yn y bore, cyfarfu'r pwyllgor â Karsten Lauritzen, a Mette Bode o Venstre Ungdom, adain ieuentid y Blaid Ryddfrydol sydd mewn grym. Gwrandawyd cyflwyniad am weithgarwch y sefydliad.

Wedyn, aeth yr aelodau i dderbyniad yn Llysgenhadaeth Prydain ar gyfer disgyblion hy^n o ysgolion uwchradd Falkonergaarden ac Øregaard. Roedd tua 14 disgybl a dau athro yno ac roedd y Pwyllgor yn gallu trafod barn y disgyblion ynghylch cyfranogiad gwleidyddol gyda nhw yn anffurfiol.

Daeth yr ymweliad i ben â chinio yng nghartref y Llysgennad, Syr Nicholas Browne. Ef ei hun oedd y gwsteiwr ac roedd rhai o'r bobl a gyfarfu'r Pwyllgor yn gynharach yn yr ymweliad yno hefyd.

Bu Wendy Wyvers o Lysgenhadaeth Prydain gyda'r Pwyllgor yn ystod yr arhosiad yn Copenhagen

## **2.4 Dydd Iau, 8 Medi, Brwsel, Gwlad Belg**

Aeth y Pwyllgor yn gyntaf i Dy^ Cymru lle y cafodd gyflwyniad ar Gyfansoddiad Gwlad Belg gan Desmond Clifford o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Oddi yno aethpwyd ymlaen i'r Weinyddiaeth Ffederal ar gyfer Materion Mewnol a chyfarfod Luc Smet yn y Gyfarwyddiaeth Etholiadau. Yn nes ymlaen cyfarfu â Stéphane Toumpsin, yn Adran y Boblogaeth yn Neuadd y Dref Ixelles, Brwsel. Daeth yr ymweliad i ben â chinio yn Nhy^ Cymru gyda Richard Kinchen y Llysgennad, Mr Nigel Bowie, Dirprwy Bennaeth y Llysgenhadaeth a Phrif-Gonswl a staff T^ Cymru.

## **3 Materion yn codi o'r Ymweliad**

### **3.1 Cofrestru Pleidleiswyr**

Y prif wahaniaeth rhwng y DU a'r gwledydd yr ymwelwyd â hwy yw'r dull o gofrestru pleidleiswyr. Ym mhob un o'r tair gwlad mae cyswllt rhwng cofrestru pleidleiswyr â chofrestrfa sifil neu gofrestrfa dinasyddion genedlaethol. Hefyd, mae'r rhestrau etholiadol yn breifat ac felly nid ydynt ar gael i'r pleidiau gwleidyddol. Mae hyn yn golygu na cheir y math o ganfasio sydd yn nodweddu etholiadau yn y DU.

***Efallai y bydd yn dda gan y Pwyllgor ystyried a ydynt am gyflwyno unrhyw awgrymiadau i Lywodraeth y DU ynghylch y cynigion i newid agweddau ar gofrestru pleidleiswyr yn y Mesur Cofrestru Etholiadol.***

## **3.2. Y Profiad o Bleidleisio**

### **3.2.1. Pleidleisio Electronig**

Derbyniodd y Pwyllgor arddangosiadau o wahanol systemau electronig o bleidleisio yn yr Iseldiroedd a Brwsel.

Mae llywodraeth yr Iseldiroedd wedi bod yn rhedeg prosiectau mawr i raddol gyflwyno pleidleisio electronig (dull o bleidleisio sy'n defnyddio peiriannau neu gyfrifiaduron personol yn yr orsaf bleidleisio) a phleidleisio o bell (dull sy'n digwydd oddi allan i orsaf bleidleisio).

Datganodd Cyngor Etholiadol yr Iseldiroedd fod angen i unrhyw system o bleidleisio electronig fod:

- Yn gyfrinachol
- Wedi'i strwythuro'n gadarn
- Yn syml i'w defnyddio
- Yn caniatáu cywiro camgymeriadau.

Cyflenwir y rhan fwyaf o beiriannau electronig yn yr Iseldiroedd gan gwmni o'r enw NEDAP sydd hefyd wedi'u cyflenwi yn yr Almaen, Ffrainc ac UDA. Fodd bynnag, yn 2004 newidiodd Llywodraeth Iwerddon ei chynlluniau i ddefnyddio peiriannau NEDAP ar gyfer etholiadau Ewrop oherwydd pryderon nad ydynt yn cynhyrchu cofnod papur o natur y bleidlais, a dyna a ddefnyddir pan fydd anghydweld neu ail-gyfrif.

Mae'r system SDU a ddangoswyd i'r Pwyllgor yn system sgrin-gyffwrdd. Mae'r cwmni'n benthyca'r peiriannau a'r meddalwedd i gwsmeriaid ar brydles ac yn dod â hwy i'r gorsafoedd pleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad. Bydd y system newydd yn cael ei defnyddio yn 2006.

Mae trafodaethau ar y gweill yn Nenmarc gyda golwg ar bleidleisio electronig ond nid yw gorfod ysgwyddo cost y peiriannau wrth fodd y canolfannau pleidleisio.

Yng Ngwlad Belg, dyluniwyd y system bleidleisio electronig i fod yn debyg iawn i'r hen system. Mae'r pleidleiswyr yn rhoi cerdyn yn y peiriant, yn dewis drwy gyffwrdd y sgrin â phin ac yn rhoi'u cerdyn yn y blwch pleidleisiau. Mae'r blwch pleidleisiau'n cyfrif y pleidleisiau'n awtomatig a chedwir y cardiau pleidleisio yn y blwch rhag ofn y bydd angen ail-gyfrif.

Fe'n sicrhawyd ni fod y system hon yn syml iawn i'w defnyddio ac na chafwyd llawer o wrthwynebiad gan unrhyw sector o'r etholaeth.

***Efallai y bydd yn dda gan y Pwyllgor ystyried a fyddent yn dymuno cael mwy o dystiolaeth ar bleidleisio electronig, gyda golwg ar ddiogelwch, costau neu gyfeiriadedd er enghraifft.***

### 3.2.2. Hygyrchedd a Phleidleiswyr Absennol

Yn Nenmarc ac yn yr Iseldiroedd fel ei gilydd defnyddir blychau pleidleisiau symudol ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd cyrraedd yr orsaf bleidleisio.

Yn Nenmarc, caiff pleidleiswyr sy'n mynd i fod yn absennol bleidleisio ymlaen llaw yn y ganolfan gofrestru. Yn yr Iseldiroedd caiff pleidleisiwr fwrw'i bleidlais drwy ddirprwy drwy ofyn i bleidleisiwr arall bleidleisio ar ei ran yn yr un orsaf bleidleisio, neu caiff wneud cais i'r maer i gael pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio arall.

Yn yr Iseldiroedd mae pleidleiswyr tramor wedi defnyddio pleidlais-bost. Bellach, cânt ddefnyddio'r rhyngwyd.

Yng Ngwlad Belg, caniateir pleidleisio drwy ddirprwy ond mae'n rhaid i bleidleiswyr gofrestru'u dirprwy yn Neuadd y Dref. Gan mai gorfodol yw pleidleisio yng Ngwlad Belg, mae'r pleidleiswyr fydd yn absennol ar ddiwrnod yr etholiad yn gallu bwrw'u pleidlais ymlaen llaw yn eu Neuadd y Dref leol.

### 3.2.3. Adroddiadau

Yn yr Iseldiroedd darperir adroddiad ar gyfer pob gorsaf bleidleisio sydd yn nodi unrhyw gwynion neu afreoleidd-dra. Anfonir y rhain yn ôl i'r Cyngor Etholiadol ac anfonir adroddiad llawn i Dy^r Cynrychiolwyr.

***Efallai y bydd yn dda gan y Pwyllgor ystyried pa arferion, a ddefnyddir yn y broses bleidleisio yn y gwledydd yr ymwelwyd â hwy, allai wella ar yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn etholiadau yn y DU a chlustnodi rhai ar gyfer eu hystyried yn llawnach.***

## 3.3 Cyfranogiad

### 3.3.1 Cyfranogiad Pobl Ifainc

Dyweddodd Anne Birte Pade o'r Uned Etholiadol fod pleidleisio yn norm cymdeithasol cryf yn Nenmarc. Mae Denmarc hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth ysgogi grwpiau anodd eu cyrraedd yn y gymdeithas a phobl ifainc. Mae sefydliadau etholiadol Denmarc, megis y pleidiau gwleidyddol, yn hyrwyddo ysgogi'r grwpiau gwan.

Mae gan ysgolion yn Nenmarc gynghorau etholedig, sef dau gynrychiolydd o bob dosbarth. Roedd Tîm Addysg Cyngor Copenhagen yn meddwl y dylai Pwyllgorau'r Cyngor annog cynghorau ysgol i roi tystiolaeth i wrandawiadau pwyllgor. Roedd y cyngor wedi ysgrifennu llawlyfr, Canllaw'r Disgybl i Ddemocratiaeth. Yn Nenmarc, disgwylir i bobl ifainc gymryd rhan mewn gweithgareddau oddi allan i'r ysgolion ac mae sefydliadau allanol fel arfer yn adlewyrchu'r broses ddemocrataidd o wneud penderfyniadau a welir yn yr ysgolion. Roedd y bobl ifainc a welodd y Pwyllgor yn dangos yn glir fod disgwyl iddynt bleidleisio.

Yn Nenmarc, mae'r elw a geir o hapchwarae'n cael ei gyfeirio tuag at fudiadau ieuentid ac roedd y ddau grw^p a welodd y Pwyllgor yn derbyn arian gan y Llywodraeth drwy Gyngor Ieuentid Denmarc. Mae hyn yn golygu'u bod yn annibynnol ar y pleidiau 'rhiant'. Mae gan y Ceidwadwyr tua 2,000 o aelodau a'r Rhyddfrydwyr tua 3,000. Mae'r grwpiau plaid yn mynd i ysgolion i recriwtio ac i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ar adeg etholiad.

***Efallai y bydd yr Aelodau'n dymuno gwranddo ar fwy o dystiolaeth gan awdurdodau lleol a sefydliadau'r ifainc sydd yn ymwneud ag addysg wleidyddol yng Nghymru. Efallai y byddent hefyd yn dymuno siarad ag adrannau ieuencid pleidiau gwleidyddol Cymru ynghylch recriwtio, cyllido, a'u gweithgarwch.***

### 3.3.2 Pleidleisio gorfodol

Mae pleidleisio ym mhob etholiad yng Ngwlad Belg yn orfodol ac felly y mae wedi bod ers canrif a mwy. Mae nifer o gosbau y gellir eu defnyddio yn erbyn y sawl sydd heb bleidleisio, yn amrywio o ddirwy hyd at (ar ôl peidio â phleidleisio deirgwaith) wahardd rhag pleidleisio am gyfnod penodedig. Swyddfa'r maer lleol biau'r penderfyniad ynghylch cosbi'r sawl sydd heb bleidleisio. O'r 8% o bleidleiswyr na phleidleisiodd yn yr etholiad cenedlaethol diwethaf, cafodd tua 1% eu herlyn.

## **3.4. Cydnabod Amrywiaeth mewn Trefniadau Etholiadol**

Yn Nenmarc ceir 74 o Gynghorau Integreiddio Lleol. Etholir Cyngor y Lleiarioedd Ethnig o'r cynghorau lleol. Rhan o waith y cynghorau yw cyfarwyddo'r mewnfudwyr newydd â'r system wleidyddol a'u hannog i gymryd rhan.

Nid oes gofyn cyfreithiol am drefniant arbennig ar gyfer y rhai nad ydynt yn siarad Daneg, ond mae'n bosibl bod rhai bwrdeistrefi yn darparu ar gyfer pleidleiswyr mewn ieithoedd eraill.

Mae dinas Brwsel yn swyddogol ddwyieithog. Mae gan bob grw^p iaith (Walwneg a Fflemeg) ei restr bleidleisio ei hun a'i ymgeiswyr ei hun yn aml hefyd. Yng Ngwlad Belg ei hun mae tair ardal ieithyddol, Fflemeg, Walwneg ac Almaeneg. Mae i bob un ei rhestr a'i hymgeiswyr. Dim ond yn iaith swyddogol yr ardal y darperir y rhestr bleidleisio.

Ni wneir trefniadau arbennig mewn etholiadau cenedlaethol a lleol ar gyfer pleidleiswyr nad ydynt yn siarad iaith swyddogol eu hardal bleidleisio fel mamiaith. Darperir canllawiau Saesneg ac Almaeneg ar gyfer etholiadau Ewrop, lle y gall unrhyw ddinesydd bleidleisio.

Roedd tybiaeth yn y tair gwlad fel ei gilydd y dylai unrhyw rai sydd yn cael pleidleisio (naill ai drwy ennill cymwysterau cenedligrwydd neu drigiannaeth) ddangos eu bod yn medru rhywfaint o iaith eu gwlad fabwysiedig.

Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried pa arferion, a ddefnyddir yn y gwledydd yr ymwelwyd â hwy i ateb gwahanol anghenion y pleidleiswyr, allai wella ar yr hyn sydd yn digwydd ar hyn o bryd mewn etholiadau yn y DU, a chlustnodi'r rhai yr hoffai'u hystyried yn fanylach.

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

3 Hydref 2005

## Atodiad C

### LGPS(2)-08-06(p12)

**Dyddiad:** Dydd Mercher, 17 Mai 2006

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 2, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Teitl:** Ymweliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus â Sweden

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi adroddiad am yr ymweliad gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus â Sweden rhwng 25<sup>ain</sup> Ebrill a 28<sup>ain</sup> Ebrill 2006. Bwriad yr ymweliad oedd edrych ar gyflwyno gwasanaethau'n lleol yn Sweden a'r modd mae llywodraeth leol yn cael ei ariannu yno gyda'r bwriad o hysbysu eu hymatebion i Adroddiadau Comisiwn Beecham ac Ymchwiliad Lyons.

### Llywodraeth Leol yn Sweden

2. Penderfynodd y Pwyllgor ymweld â Sweden oherwydd bod ganddo ddiddordeb penodol mewn cyflwyno gwasanaethau ar lefel lleol iawn. Yn Sweden mae 290 bwrdeistref (*kommun*) yn ffurfio ei Llywodraeth Leol. Gall meintiau'r bwrdeistrefi amrywio o fach iawn (2,500) i gytrefiadau mawr (mae bwrdeistref Stockholm yn 760,000). Hwyl sy'n gyfrifol am ddarparu rhan helaeth y gwasanaethau cyhoeddus. Ymhlith y tasgau rheoledig penodol y mae gofyn i'r bwrdeistrefi eu darparu mae:

- Addysg,
- Gwasanaethau cymdeithasol,
- Gofal yr henoed ,
- Gofal o bobl gydag anableddau corfforol neu ddeallusol,
- Cynlluniau ac adeiladu ffisegol,
- Tasgau amgylcheddol a gwasanaethau achub penodol

3. Hefyd mae 21 sir (*Landsting*) y mae gofal iechyd yn brif dasg ganddynt. Y cynghorau Sir sy'n gweithredu'r holl ysbytai yn Sweden, ar wahân i nifer fach o ysbytai dan berchnogaeth breifat. Mae'r cynghorau sir yn gyfrifol am wasanaethau gofal meddygol mewn ysbytai ac am y gofal o gleifion allanol a ddarperir mewn canolfannau iechyd rhanbarthol. Mae'r system gofal o gleifion allanol hefyd yn cynnwys canolfannau mamolaeth a iechyd plant. Hefyd, mae'r cynghorau sir yn gyfrifol am wasanaethau deintyddol cyhoeddus a gofal seiciatrig.

4. Mae bwrdeistrefi a chynghorau sir yn codi trethi incwm lleol ac yn penderfynu gradd y dreth. Gradd y dreth leol ar gyfartaledd yw 30%. Mae oddeutu 20% o'r arian yn mynd i'r bwrdeistrefi a 10% yn mynd i'r cynghorau sir. Mae refeniw o drethi yn ffynhonnell incwm mawr ar gyfer awdurdodau lleol ac mae'n llunio oddeutu dwy ran o dair cyfanswm eu hincwm. Caiff trethi

eu casglu'n ganolog gan Asiantaeth Trethi Sweden ac mae system gydraddoli yn gweithredu i roi sylw i'r gwahaniaethau rhwng galluoedd codi trethi gwahanol awdurdodau lleol. Mae egwyddor ariannu hefyd yn bodoli sy'n gofyn fod y Wladwriaeth, os yw'n penderfynu gosod tasgau newydd ar awdurdodau lleol a chynghorau sir/rhanbarthol, yna rhaid iddi hefyd ddarparu'r arian angenrheidiol i gyflawni'r tasgau hyn.

5. Mae gan Sweden hefyd system o Fyrddau Gweinyddol Rhanbarthol, gyda Llywodraethydd Sirol yn arwain pob un. Er eu bod yn cyd-weithio gyda'r siroedd maent yn wir yn gangen o'r llywodraeth ganolog ac o'r herwydd maent yn atebol i Weinidogion y Llywodraeth. Mae ganddynt rôl o oruchwylio a rheoleiddio gyda golwg ar lywodraeth leol, yn ogystal â bod yn gyfrifol am swyddogaethau megis trefnu etholiadau a chyhoeddi trwyddedau gyrru.

6. Fe all strwythur llywodraeth leol yn Sweden newid yn y dyfodol agos. Gallai'r 21 sir gael eu newid yn 6-10 rhanbarth y byddai ganddynt fwy o bwerau, er enghraifft gyda golwg ar gynllunio strategol a thrafnidiaeth. Mae treial yn digwydd ar hyn o bryd yn ardal Malmö.

## **Ymweliad y Pwyllgor**

6. Fe aeth pedwar Aelod o'r Pwyllgor ar yr ymweliad, sef y Cadeirydd, Ann Jones AC, Sue Essex AC, Mike German AC a Dai Lloyd AC. Fe aeth y Clerc Pwyllgor, Virginia Hawkins a'r Ymchwilydd yn y Gwasanaethau Ymchwil, Alys Thomas gyda hwy.

7. Cychwynnodd ymweliad y Pwyllgor ym mwrdeistref drefol Västerås sydd wedi'i lleoli oddeutu awr yn y car o Stockholm. Mae ganddi boblogaeth o tua 130,000 a hi'r yw'r 6<sup>ed</sup> bwrdeistref fwyaf yn Sweden ac ar hyn o bryd fe'i rheolir gan glymblaid Ddemocrataidd Gymdeithasol/Chwith. Cyfarfu'r Pwyllgor a chafodd gyflwyniadau gan y Cyfarwyddwr Dros Dro, Aelod Etholedig o'r Gymedrol (y blaid geidwadol) a swyddog a roddodd gyflwyniad ar gyllid. Hefyd yn bresennol yr oedd y Cydlynnydd Rhyngwladol.

8. Yr oedd y drafodaeth yn cynnwys sôn am strwythur y cyngor sy'n adlewyrchu rhaniad 'prynwr /darparwr' a dadansoddi'r gwariant ar wasanaethau. Mae 28% o gyllideb y fwrdeistref yn mynd ar ysgolion gorfodol (hyd at 16 oed) a 18% ar ofal a gwasanaethau cymdeithasol. Mewn ymateb i gwestiynau aelodau'r Pwyllgor am gyflwyno'n lleol a chydweithrediad gyda bwrdeistrefi eraill, dywedodd y cynrychiolwyr Swedaidd fod symud wedi bod oddi wrth gyflwyno gwasanaethau'n lleol iawn dros y ddegawd ddiwethaf oherwydd effeithiolrwydd. Mae cydweithrediad gydag awdurdodau lleol eraill wedi'i reoleiddio'n llym gan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac mae rhoi gofyniad fod sefydliad cyfreithiol i gael ei sefydlu. Fodd bynnag, mae cyd-weithredu yn digwydd, er enghraifft, gyda darparu gwasanaethau tân a gwasanaethau brys. Mae hefyd yn bosibl i awdurdodau brynu gwasanaethau gan eraill.

9. Ymwelodd y Pwyllgor â chanolfan adsefydlu cyffuriau drws agored a chael cyflwyniad ar ei strwythur a'i gwaith. Er bod y ganolfan yn cael ei chynnal gan y fwrdeistref, caiff rhai staff (er enghraifft y meddyg) eu hariannu gan y Sir oherwydd y cyfrifoldeb am iechyd.

10. Yna teithiodd y Pwyllgor i fwrdeistref Nykvarn sydd â phoblogaeth o 8,238. Er ei fod mewn lleoliad gwledig, y mae yn wir yn anheddiad dortur ar gyfer trefi cyfagos ac ar gyfer Stockholm. Ar hyn o bryd fe'i rheolir gan glymblaid Plaid leol Nykvarn, y Blaid Gymedrol a'r Blaid Ganol. Cyfarfu'r pwyllgor gydag aelodau etholedig a swyddogion a chawsant gyflwyniad.

11. Mae tair ysgol yn y fwrdeistref, 7 canolfan cyn ysgol/ gofal dydd ac 1 cartref nyrsio. Mae'n prynu 270 lleoliad addysg ar ôl-16 gan ddwy fwrdeistref drefol gyfagos. Mae 59% cyllideb y fwrdeistref yn cael ei wario ar ysgolion gorfodol ac ôl-16. Ymwelodd y Pwyllgor ag un o'r ysgolion sy'n darparu ar gyfer oddeutu 400 o ddisgyblion rhwng 6 ac 16 oed a chawsant daith o'i hamgylch gan y brifathrawes.

12. Yna aeth y Pwyllgor i Ysgol Werin. Mae'r rhain yn ysgolion bach, preswyl yn aml i oedolion sydd i'w gweld ar draws gwledydd Sgandinafia. Ar hyn o bryd mae 148 ohonynt yn Sweden. Maent yn dueddol o gael eu trefnu gan sefydliadau gwirfoddol er eu bod yn cael grantiau gan y gwledydd a chan y llywodraeth ganolog. Yr oedd yr ysgol yr ymwelodd y Pwyllgor â hi yn cael ei threfnu gan y Gymdeithas Ddirwest Genedlaethol. Cafodd y Pwyllgor gyfarfod a chael trafodaethau gyda'r brifathrawes.

13. Ar yr ail ddiwrnod ymwelodd y Pwyllgor â SALAR, Cymdeithas Llywodraeth Leol Sweden a derbyn cyflwyniad ar gyllid llywodraeth leol yn y wlad. Yr oedd y swyddog a roddodd y cyflwyniad wedi gweithio i gynllunio'r system gydraddoli trethi.

14. Yna cyfarfu'r Pwyllgor gyda Phen Ysgrifennydd y Pwyllgor Cyfrifoldebau Sector Cyhoeddus. Mae hwn yn bwyllgor seneddol a sefydlwyd gan y Llywodraeth ac mae'n cynnwys swyddogion, gwleidyddion ac arbenigwyr. Ei faes cyfrifoldeb yw archwilio gallu'r weinyddiaeth gyhoeddus yn Sweden i gwrdd â'i hymrwymiaadau o ran lles ac i gynnig gwelliannau i'r strwythur. Bydd unrhyw gynigion yn ymlynu wrth y Model Cymdeithasol yn Sweden sy'n cynnwys llawer o dasgau'n cael eu cyflwyno ar lefel lleol a thraddodiad o hunanlywodraeth leol. Nid oes disgwyl am adroddiad terfynol y Pwyllgor hyd yn fuan yn 2007.

15. Cyfarfu'r Pwyllgor â staff Bwrdd Gweinyddol Sir Stockholm a esboniodd eu rôl yn goruchwyllo ac yn rheoleiddio'r bwrdeistrefi.

16. Ar y bore olaf cyfarfu'r Pwyllgor â staff o'r Sefydliad Democratiaeth a Chymorth Etholiadol (IDEA) sy'n NGO sy'n ceisio hybu democratiaeth ac sy'n cyhoeddi'n helaeth ar faterion megis faint sy'n troi allan mewn etholiadau a phrosesau etholiadol. Trafododd y Pwyllgor y lefelau pleidleisio ymhlith pobl ifanc gyda staff IDEA gan fod hyn yn rhan o gyfrifoldeb eu prosiect craffu ar drefniadau etholiadol.

17. Aeth Anna Komheden o'r Llysgenhadaeth Brydeinig yn Stockholm i'w cyfarfodydd gyda'r Pwyllgor ac ar yr ail noson cawsant eu croesawu mewn cinio gan y Llysgennad.

**Camau Gweithredu:** i'r Pwyllgor ei Nodi



## Atodiad D

### Pwyllgor Rhanbarthol y De Orllewin

#### Cofnodion (SWaWR(2)-02-05)

**Dyddiad y cyfarfod: Dydd Gwener 14 Hydref 2005**

**Amser y cyfarfod: 9.30 am – 12.15 pm**

**Lleoliad y cyfarfod: Y Ganolfan Ddinesig, Castell-nedd**

**Aelodau'r Cynulliad a oedd yn bresennol**

<b>Aelod Cynulliad</b>	<b>Etholaeth</b>
Peter Black	Gorllewin De Cymru
Janet Davies (Cadeirydd)	Gorllewin De Cymru
Brian Gibbons	Aberafan
Edwina Hart	Gŵyr
Dai Lloyd	Gorllewin De Cymru
Val Lloyd	Dwyrain Abertawe
Gwenda Thomas	Castell-nedd

#### **Yn bresennol**

<b>Enw</b>	<b>Yn cynrychioli (os ydyw'n berthnasol)</b>
Cliff Croft	Grwp Mynediad Castell-nedd a Phort Talbot
Yvonne Hurcombe	Pensiynwyr Cymru
Margaret Minhinnick	Cymru Gynaliadwy

#### **Gwasanaeth y Pwyllgor a oedd yn bresennol**

<b>Enw</b>	<b>Teitl swydd</b>
Jane Westlake	Clerc y Pwyllgor
Claire Morris	Dirprwy Clerc y Pwyllgor

#### **Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:**

<b>Aelod Cynulliad</b>	<b>Etholaeth</b>
Alun Cairns	Gorllewin De Cymru
Andrew Davies	Gorllewin Abertawe
Janice Gregory	Ogwr
Carwyn Jones	Pen-y-bont ar Ogwr

### **Eitem 1: Croeso, Cyflwyniad ac Ethol Cadeirydd**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd.

1.2 Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.

## **Eitem 2: Craffu ar Drefniadau Etholiadol yng Nghymru**

2.1 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r farn a dderbyniwyd yn cael ei adrodd yn ôl i Ann Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

2.2 Rhoddodd Yvonne Hurcombe gyflwyniad ar ran Pensiynwyr Cymru. Mae copi o'i chyflwyniad yn Atodiad 1.

2.3 Gwnaeth Yvonne Hurbcombe y sylwadau canlynol mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau:

- ◆ Dylai Swyddogion Canlyniadau fod â mwy o bŵer i ymchwilio i dwyll etholiadol
- ◆ Gellid lleihau twyll pe bai gofyn i bobl ddarparu tystiolaeth adnabyddiaeth a'u dyddiad geni wrth bleidleisio.
- ◆ Dylid ehangu rôl yr heddlu o ran monitro etholiadau.
- ◆ Mae'r ffaith bod polisïau'r pleidiau gwleidyddol nawr yn fwy tebyg i'w gilydd yn ei gwneud yn anoddach i bobl benderfynu i bwy i bleidleisio.
- ◆ Dylid dysgu dinasyddiaeth weithredol a gwleidyddiaeth mewn ysgolion fel bod pobl ifanc yn deall pam y dylent bleidleisio.

2.4 Dywedodd **Yr Uwch Arolygydd Cliff Filer** o Uned Castell-nedd a Phort Talbot, Heddlu De Cymru bod gan yr heddlu rôl o ran monitro etholiadau ac roedd yn ddyletswydd y cymerai ef a'i swyddogion yn ddifrifol iawn.

2.5 Dywedodd **Frank Little**, Cadeirydd y Democratiaid Rhyddfrydol Lleol mai un rheswm pam nad oedd pobl yn cofrestru i bleidleisio oedd oherwydd y defnydd cynyddol a wneir o'r gofrestr etholiadol ar gyfer dibenion masnachol. Teimlai hefyd bod twyll pleidleisio drwy'r post yn gyffredin: dim ond megis dechrau yw achos Birmingham. Credai hefyd y byddai defnyddio Technoleg Gwybodaeth a phleidleisio ar lein yn rhoi mwy o gyfleon i ddifetha'r bleidlais.

2.6 Dywedodd **Dennis Little**, Cyngor Tref Ystradgynlais y bu bob amser yn broblem cael pobl i bleidleisio a nid oedd gwleidyddion yn helpu eu hunain trwy ddenu cymaint o gyhoeddusrwydd gwael.

2.7 Dywedodd **Roger Knight**, Prifysgol y Drydedd Oes bod gan Gymru fesur o gynrychiolaeth gyfrannol yn etholiadau'r Cynulliad ond achosodd hyn i Lywodraeth y Cynulliad beidio a chael mwyafrif clir.

2.8 Dywedodd **Tim Palmer**, Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, gan y canfuwyd mai pobl ifanc oedd y grwp lleiaf tebygol o bleidleisio, gallai gostwng yr oed pleidleisio i 16 a gwneud dinasyddiaeth yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaeth (fel y mae yn Lloegr) annog mwy o bobl ifanc i droi allan.

2.9 Rhoddodd Cliff Croft gyflwyniad ar ran Grwp Mynediad Castell-nedd a Phort Talbot. Mae copi o'i gyflwyniad yn Atodiad 2.

2.10 Dywedodd Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio bod adroddiad wedi ei baratoi ar gyfer y Cynulliad ar brinder dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a gobeithid y byddai arian yn dod ar gael i hyfforddi mwy.

2.11 Rhoddodd Margaret Minhinnick, o Cymru Gynaliadwy gyflwyniad. Mae copi yn Atodiad 3.

2.12 Dywedodd **Dawn Gullis**, Mencap Cymru, iddi dderbyn tystiolaeth gan bobl ag anableddau dysgu na wnâi eu gweithwyr cymorth fynd â hwy i'r orsaf bleidleisio er bod arnynt eisiau pleidleisio.

2.13 Dywedodd Edwina Hart, y Gweinidog Dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y byddai'n gofyn i'w swyddogion ymchwilio i hyn.

2.14 Gofynnodd **Janice Dudley**, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd a Phort Talbot am farn yr Aelodau ynghylch cynigion y Papur Gwyn i rwystr Aelodau'r Cynulliad rhag sefyll ar gyfer etholaethau a rhanbarthau.

2.15 Dywedodd y **Cyng John Warman**, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd a Phort Talbot bod angen eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng etholiadau lleol, cenedlaethol, y Cynulliad ac Ewrop. Câi pobl eu cymell yn wahanol ar gyfer gwahanol lefelau o lywodraeth. Ni chaniateir i blant dan 16 oed gael mynediad i orsafoedd pleidleisio, felly ni fyddai pobl ifanc 16 oed yn barod ar gyfer y broses o bleidleisio. Teimlai hefyd na fyddai pleidleisio electronig yn cymryd lle mynd allan i bleidleisio.

2.16 Dywedodd yr **Henadur Morlais Thomas**, Cyngor Tref Gorseinon bod mynediad i'r anabl wedi gwella ond ei bod yn cymryd amser, gan nad oedd gan gyrff cyhoeddus bob amser ddigon o arian i wneud gwelliannau'n ddigon cyflym.

2.17 Dywedodd **Ivor Rees**, Prifysgol y Drydedd Oes y byddai cynrychiolaeth gyfrannol yn fwy priodol gan bod mwy o ymgeiswyr nawr yn sefyll am etholiad. Dylai bod gan y Cynulliad nawr wyth deg o aelodau wedi eu hethol drwy'r bleidlais sengl drosglwyddadwy.

2.18 Dywedodd **Pat Dunmore**, Cymunedau sy'n Gofalu, i arolwg a wnaeth ei sefydliad hi ganfod y teimlai cyfran fawr o bobl ifanc nad oeddent yn cael y cyfle i ymwneud â phenderfyniadau a oedd yn effeithio arnynt hwy. Roedd Cynghorau Ysgolion yn gam ymlaen ond y duedd oedd iddynt gynnwys y bobl ifanc hynny a oedd eisoes ynghlwm â'r maes. Dylid gostwng yr oed pleidleisio i 16.

2.19 Amlygodd **Ray Thomas**, Mudiad Gweithredu Gofalwyr yr anawsterau a wynebai llawer o ofalwyr wrth geisio pleidleisio.

2.20 Gofynnodd **Yvonne Hurcombe**, Cadeirydd Gofal am y Difrifol Wael am ofal lliniarol ar gyfer cleifion a oedd heb fod yn dioddef o ganser ond a oedd yn dioddef o salwch cynyddol a fyddai'n cyfyngu ar eu hoes.

2.21 Dywedodd Brian Gibbons, y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gronfa arbenigol gael ei sefydlu ar gyfer gofal lliniarol a chydabu y dylai hyn fod wedi ei gysylltu â'r broses gomisiynu. Credai y byddai'n angenrheidiol i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer diwedd oes ond byddai hyn ymhen rhai blynyddoedd.

## **Gweithredu**

Byddai'r Cadeirydd yn anfon copi o'r cofnodion at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

### **Eitem 3: Cofnodion**

3.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai.

### **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Y dyddiad dros-dro ar gyfer y cyfarfod hwn oedd 17 Mawrth ond roedd hyn i'w gadarnhau.

## **Gwasanaeth y Pwyllgor Hydref 2005**

### **Atodiad 1**

Good morning ladies and gentleman. My name is Yvonne Hurcombe and I am here today in my capacity as Chairperson of Wales Pensioners. I would like to start by telling you a little bit about the organisation I represent.

The idea of providing support for older people was brought about more than 30 years ago. At that time the organisation was known as The Retired Members Association. The title changed 10 years ago to the Wales Pensioners. The objective was to campaign and lobby for the rights of the older person and we have been active in establishing forums in each of the counties in Wales and are presently based at Topic House in Townhill, Swansea. Mr Gordon Carruthers who was founder member and chairman

has recently retired at the age of 87 years. Wales Pensioners is supported by the City and County of Swansea.

### **Issue 1 - Voter Registration**

I believe that the main reason for not registering is Apathy. For various reasons people simply do not want to vote.

Other reasons could be a lack of understanding of the system and the politicians or not feeling valued.

In response to the question "Did you know it is compulsory to register to vote in the UK?" I believe it is compulsory to register and not registering could result in a fine of up to £1000, but voting is solely a matter of choice. It is not compulsory to vote only to register.

### **Issue 2 - Low Turnout**

Reasons for low turnout could include

- Apathy - where they feel that their vote is not going to change anything.
- Transport - when there is no available transport to and from the polling station it becomes more difficult for the older voter. Many pensioners do not have their own vehicle and rely on others for transport.
- Some people rely on others for moral support and do not feel able to attend the polling station alone.
- Street cred - not being fashionable and peer pressure could be reasons for younger people not voting.

Ways of addressing these problems could include

- If transport were supplied by the local political party members then both the transport and moral support issues may be addressed.
- Non political marketing aimed at promoting the importance of voting. Perhaps aimed at the younger element of the population to overcome the effects of street cred, fashionable and adverse peer pressure.
- It may be beneficial to educate people to understand the reasoning behind voting not just as a duty but as a way of providing change.

### **Issue 3 - Ways of Voting**

Older people are wary of technology and also most people do not accept change very easily and feel safer and more comfortable with the system they are already familiar with.

Polling cards are generally easy to understand and do not appear to create too much of a problem. Large print may be an option to help partially sighted people.

People appear to be distrustful of the postal voting system. Many feel that there might be unscrupulous people who would sabotage the voting which I believe has occurred in the past.

Some people are unable to post the form and others are not confident that their votes will be safely delivered.

Also if the form has not been filled in properly the vote will be deemed invalid.

#### **Issue 4 - Access**

Generally the issue of access to the polling stations was not a problem. However with some of the smaller venues use of a wheelchair was difficult.

As previously mentioned in Issue 2, transport to and from the venue can be a problem for some older or disabled people.

#### **Issue 5 - Language**

In general it would appear that most people are able to understand the forms and the forms are available in languages required by most people.

I would also like to mention the following information which was obtained from the training officer at the Minority Ethnic Women's Network based in Swansea who mentioned:

- Cultural Issues  
In some cultures women are excluded from decision making and therefore are not accustomed to voting and other forms of decision making.
- Education  
It may be beneficial to understand the reasoning behind voting not just as a duty but as a way of providing change.
- Translation  
A lot of meaning can be lost in translation. This should be taken into consideration when translation is used.
- Heritage and Culture  
Should be a factor when forms are being prepared.

I would like to close by thanking you for inviting me here to speak on behalf of the Wales Pensioners.

#### **Atodiad 2**

#### **Neath Port Talbot Access Group Local Government Elections**

There are several reasons why disabled people are discouraged from taking part in Local elections

- Lack of confidence in the ability of politicians and Councils to make a difference to our lives
- Disabled people know little or nothing about candidate and party policies.
- Information is not provided in a suitable manner.
- Some disabled people have problems travelling to and from the Polling station.
- There are problems accessing the Polling station and its facilities.

What can be done to change minds?

- The Local Councils should provide information about how it operates, what it has done and is planning to do, using a suitable media.  
e.g. I often receive complaints and comments from disabled people about service provision, but when it is explained that a budget has been allocated and certain things have been done on their behalf over the past five years; when budgets and the need for forward planning are explained, most people accept this and are more prepared to wait for their problems to be corrected, but not too long.
- Information must be provided in accessible media or it is wasted time and effort.
- Providing information includes making available printed material in a font size to suit individuals; Braille or in audio for people with visual impairments. Suitable font and background colour for people have certain forms of dyslexia.
- It must be remembered that people who are deaf like those with Learning disabilities, sometimes need simplified Grammar or BSL on Video or DVD. A deaf interpreter can make a DVD as easily as an audio tape is made.

### **One format does not meet all requirements.**

Having been prepared to supply information in requested alternative formats, Councils` should ascertain if the disabled person requires all future information in that format and send all future publications in the requested format. Records should be kept of the communication requirements, within Data Protection Act guidelines.

It is important that information is supplied for hard to reach people, such as housebound people and people without access to public transport.

Many think that Councils are directly responsible for many Health issues, the Police, and Transport, so an explanation of areas of responsibility is needed.

Councillors and officers should listen to comments about what has been done that satisfied disabled people and build on them.

Listen to their problems; if questions are asked and cannot be answered immediately tell them honestly when to expect a reply. The reply should tell them how, if and when their problems will be attended to, or there should be an acceptable reason why their needs cannot be met.

Again, People may fail to register because Electoral Registration forms are not understood as they are not provided or offered in alternative formats or help may be required to fill in the form.

This also may lead to failure to understand that it is compulsory to register.

There is need of a follow up visit when forms are not returned on time. Issuing authorities should be aware if alternative formats or help with form filling are required. Help is likely to be required by People who have visual impairments, learning disabilities or are deaf. Deaf people may need the help of a BSL interpreter.

Means of asking for help should be in large print in a prominent position on the forms.

There has never been contact information on registration forms for deaf people who need help understanding or form filling.

Deaf people use several forms of communication, Mini com phones, Video Phones, Text messaging, E Mail. Please try to accommodate them and ensure that Phone numbers are published. People with Speech impairments may also need to use these forms of communication.

I do not know anyone that has yet received or been offered Campaign literature in an alternative format.

Information on the literature never informs how a deaf person may make contact with the candidate or electoral officer.

Almost 20% of the population are unable to read newsprint, but candidates' election literature is frequently printed in small fonts with bad colour contrasts, indicating that Candidates have not considered the needs of 20% of their potential voters.

Members attending events for ten years or more say that politicians have not been accompanied by BSL interpreters often there is no loop system, thus excluding Deaf people and people using hearing aids from the proceedings. Deaf persons representatives point out that normally alternative formats are available such as Large print, Braille and audio, plus Welsh and may be Punjabi, but never BSL on video or DVD.

As said earlier, one format does not meet everyone's needs.



Disabled people's personal needs must be catered for if they are expected to vote; politicians must make an effort to consider their needs when trying to woo voters.

Candidates or their representatives should make a greater effort to meet the people whom they are wooing.

Having found out about the Council and the Candidates the disabled person has decided to vote. The decision now is does he or she use a Postal vote, or attend the Polling Station.

If using a Postal vote, who will help to fill it in?

Some may use a Website to cast a vote if this option were available.

As many are independent and would preferably attend the polling station; it is necessary to ascertain if the Polling station is Accessible for all.

This information should be available for disabled people on request in appropriate format via the registration form.

Information provided should state details of physical access; e.g. level or ramped entrance; availability of a loop system for Hearing Aid users; Help for Deaf people; Large print voting papers or magnifiers or other assistive facilities for people with visual impairments; suitable height and width polling booths for wheelchair users, the polling booths should be well light, and very important for disabled people; understanding and helpful polling clerks.

Consider allowing people to have a choice of Polling stations if the local one is unsuitable.

A Survey carried out by Scope at the time of the Assembly elections, having received reports on a tenth of them revealed that over 75% of polling stations in Wales failed to meet the needs disabled people in one or more ways.

In Neath Port Talbot the percentage is far better because Council has discussed arrangements following previous Elections and worked to make improvements.

If happy with the proposed access and facilities at the Polling station, means of transport have to be considered. All is O K if you have your own or access to a friend's vehicle. The candidates literature or personal contact should have told the elector if in need of transport, how to contact a transport provider. Hopefully with transport free of charge.

## Atodiad 3

### Margaret Minhinnick Comments on the Issue of Low Electoral Voting

#### Introduction

I am pleased to be involved today and am speaking from my experience establishing Friends of the Earth Cymru and after 10 years leaving to set up Sustainable Wales (SW). Our future is dependent upon action to protect the environment and the involvement of informed citizens who contribute to the decision-making process. This I believe will re-engage citizens in local politics and create a stronger foundation for sustainable communities. This is fundamental to the debate today.

Indeed 2 major all Wales events were organised by SW before the first Assembly elections and after the first year of operation called 'Finding Our Voices'. Over 400 people attended from all walks of life – their intention was to explore and challenge for more interesting, meaningful and fruitful ways of involving the community in local decision-making. (Reports available on [www.sustainablewales.org.uk](http://www.sustainablewales.org.uk))

The creation of the National Assembly was a significant event – part of the process of bringing government closer to the people, but is it? Are our voices really heard any more than they ever were? Do our contributions change anything? Power is too centralised in Westminster and people have no control over their local affairs. Many politicians in Wales, I think, believe they are involving people in the democratic process - but it's a too shallow involvement. It softens up and appeases - but its not effective in most cases. It tends to involve the usual suspects, like myself – but what about all the others who are disengaged, disillusioned, or disadvantaged? A wider social grouping is necessary.

Why should we complain that people don't vote for political parties when those parties do not represent their interests and are not interested in them? For too many politicians, politics is the great incestuous game of power. People sense – often correctly – that what politicians are interested in, is politics. (only 2% of population belong to a political party and few are active)

We should also ask what are people voting for when they vote? Too often it seems to be the maintenance of a self-perpetuating establishment, whether Labour or Conservative. For example – the Labour Party in 1997 maintained the previous government's spending programme.

Voting is the pinnacle of **citizenship**, it might be said. But we are citizens of what? A consumer state? Tescoland? A country that invaded Iraq against the wishes of the majority?

Consider the Iraq invasion. The official UK opposition – the Conservatives – were even more eager for it than the Labour government.. **No major party spoke for the majority – an astonishing state of affairs.** Many young

people were against the invasion. Have they already been alienated from the voting process?

There is a disconnect between the Westminster village and locally.

Politician's ways of 'doing politics' is not interesting, it is not exciting, there is no vision, or passion - they have a low regard and have lost our trust.

No – we should not berate people for not voting. We should blame instead the political parties for disenchanting so many of the population. Blame politics, not the people.

People vote if they sense they have a stake in things. But with power so firmly exercised by big business and bewildering bureaucracies, people increasingly feel ignored. Therefore, they ignore politics - and that's to the detriment of our society.

**To comment on some of the questions posed:-**

### **1. Registration**

\* I can't say that I was really aware that voting was compulsory, registering to vote can seem bureaucratic to certain people - those with learning difficulties; those who find the forms difficult.

Conversely, registration by household can invite problems – why should a wife be registered by her husband (or vice versa?)

\* Maybe people should be encouraged to register to vote just as now they register with doctor or dentist – especially if they move away.

### **2. Low Turn out? Fewer People Voting**

- Greater mobility – more people move away from their communities, maybe moving frequently. Is it difficult to keep up with them?

\* People will vote in Welsh Assembly elections when they feel that Welsh Assembly members have real power and can make important decisions. Until then, turn out will be very low. They sense power is far too centralised and controlled by successive elites.

- As with Iraq, people might find little to choose between the parties. Maybe people want to vote but for “**none of the above**”. Again, maybe we should not be asking why people don't vote. What we should be asking instead is why the political parties cannot attract voters or enthuse them. Is our party system outmoded? Is it behind the times for contemporary society?
- But consider this - Even when 70 – 80 percent of people voted – was that such a good thing? It created a political monoculture in various parts of the UK – such as the south Wales valleys. With hindsight, maybe this was not

healthy for the area. There are many county boroughs in Wales today where one party has a stranglehold – even with only 30 percent voter turnout. Maybe people fail to vote because of this “iron grip” certain parties have in certain areas.

- Lowering the voting age to 16 could attract young people before they are preoccupied with other priorities and this could get them started.

### 3. Ways of Voting

Provision of more convenience and choice when voting is no bad thing -as long as there is no potential for coercion and it is still secret.

- Text or Internet voting would be attractive to the young – who are now poor voters. But text etc would not attract older voters – though the majority of these already vote.
- Might text / internet etc voting be subject to fraud – as we have seen with postal voting?
- There would be a need to be mindful of sectors of young people who could not afford or unable to implement the technology.- a digital deficit.
- Could there be an expansion of places to vote. At work? Via computer in the supermarket? But are we saying our lives are now so busy we cannot spare the time for the ritual of a visit to the polling station. This would seem very depressing.
- What about travelling polling stations? (Like travelling libraries and supermarket deliveries to homes?)
- Attracting young people might be done via new technology. But we should ask whether young people find anything relevant in any of the parties pronouncements. Youth are not prominent within the political parties where is Young Labour or the Young Conservatives, etc. ? **Do we need A NEW PARTY for young people?**

**Or, for instance, should it be mandatory that a certain proportion of any local authority councillors should be aged under 50; under 40; under 30. And that 50% are female?**

### 4.Voting stations

- Maybe the booths could be made more welcome. They are austere places. What about music? Refreshments? A chance of political debate after voting has taken place in ‘discussion lounges’ in schools, church halls, etc where you could exchange views. Indeed, is voting a severe anti-climax? Could we do other things at the polling stations?

\* As to voting places - why not voting in Libraries? Then, we have attracted people who might stay and browse.

## 5. Language

- The forms might be re-designed and made instantly understandable. They should look important, modern and fresh. The words, "VOTING CARD" in big letters, with your name & address, etc.
- **HOWEVER, IT IS NOT JUST ABOUT MAKING IT EASY BUT ABOUT MAKING IT IMPORTANT.**
- **VOTING IS NOT THE ONLY WAY TO GAIN DEMOCRATIC PARTICIPATION.**

Voting could be augmented by other procedures. It is not the only way to engage with the citizen. Isn't society telling us that it wants to move from a representative style of democracy to a more participatory style of democracy one where there is more sharing of power or ownership of decision-making?.

Locally people need to be seen to be involved in agenda setting **and** the final decision. Citizens need to influence both these stages.

Often the decision has already been taken by the political authority about how much scope there will be for public involvement - there is no sharing of power. A **deepening** of citizen participation is required.

For instance:

Community Consultation techniques are used to elicit opinion, build capacity and extract new ideas throughout the year - but care needs to be taken not to overload.

e.g. Roundtable debates, planning for real, citizen's juries/panels, community visioning, participatory theatre, referenda, etc, etc.

- Candidates could be interviewed by Citizens' Juries in full view of a local audience.
- A written and oral exam would be set for candidates every 5 years to check knowledge and passion!
- Training would be provided for local councillors on urgent issues. - or for particular entire community/county borough councils, to get members up to scratch on issues such as Climate Change, Sustainable Development, Welfare Rights. Then voters would be more confident in their councillors.
- Facilitation to be done by independent experts to ensure fairness
- Resources and time are given to these type of processes.

**Suggested reading:**

**'Beyond the Ballot - 57 Democratic Innovations From Around The World'** was generated as evidence to, and published by, the **POWER Inquiry** – an independent inquiry into the state of Britain's democracy, chaired by Helena Kennedy QC.

**The POWER Inquiry** was established in 2004 to explore how political participation and involvement might be increased and deepened in Britain. Its investigation into Britain's political processes is based on the belief that a healthy democratic system requires the active participation of its citizens and that without this the vitality and legitimacy of its democracy is undermined.  
**See** [www.powerinquiry.org](http://www.powerinquiry.org)



